Y CARDI BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 463 | Gorffennaf 2025 | Pris £1.50

# DIWEDD CYFNOD

Mae'n ddiwedd cyfnod i'r Cardi Bach gyda'r rhifyn hwn wrth i Wyn a Meirwen ymddeol fel cysodwyr wedi 21 mlynedd wrth y gwaith. Roedd y papur mewn pâr o ddwylo diogel wrth iddyn nhw ymroi i'r swydd gyda gofal trylwyr, dibynadwy, ac, yn bwysig iawn, adnabyddiaeth o'r ardal a'i phobl. Os oeddech ag unrhyw gwestiwn ynglyn â'r Cardi Bach, "gofynnwch i Wyn a Meirwen" fyddai'r ateb. Maen nhw wedi bod yn cysodi drwy gyfnod pan mae newidiadau mawr wedi digwydd yn y byd technolegol ac wedi addasu eu gwaith i gyd-fynd â hyn ac rydyn yn hynod ddyledus iddyn nhw am baratoi papur deniadol swmpus ddeg gwaith y flwyddyn.

Mae'n diolch yn fawr i chi'ch dau am yr holl waith ac ymroddiad i'n papur bro a mwynhewch eich hymddeoliad er rwyn siwr y byddwn yn aml yn "gofyn i Wyn a Meirwen" eto.



Annwyl Olygydd, Swyddogion, Gohebwyr a Darllenwyr

Mae'n anodd credu fod 21 mlynedd wedi mynd heibio ers i ni ddechrau cysodi'r Cardi Bach ym mis Mawrth 2004. Dyma'r adeg pan oedd llawer o'r papurau bro yn dechrau cysodi'n ddigidol a rhaid oedd symud ymlaen gyda'r oes. Gofynnodd Rhoswen Llewellyn, a oedd yn golygu a chysodi ar y pryd, a fydde ni'n barod i osodi'r Cardi Bach. Pwy fydde'n dweud NA wrth Rhoswen! Ar ôl ychydig o hyfforddiant dyma ddechrau ar y gwaith.

Mae wedi bod yn fraint ac yn bleser cael gweithio ochr yn ochr â phawb dros yr 21 o flynyddoedd. Trwy gyfrannu at lunio tudalennau'r papur bro, rydym wedi cael y cyfle i weld straeon lleol yn dod yn fyw, ac i rannu llais y gymuned â'r darllenwyr. Mae'r gwaith tîm a'r gefnogaeth rydym wedi profi yma wedi bod yn amrhisiadwy. Diolchwn o waelod calon i'r diweddar Rhoswen a fu'n olygydd tan 2019 pan gorfu iddi roi'r gorau i'r swydd oherwydd afiechyd. Yn olynydd i Rhoswen, penodwyd Eurfyl Lewis yn olygydd ac mae eisioes wedi profi ei fod yn angerddol a brwdfrydig dros y papur a phopeth Cymreig mae yn ymwneud ag ef.

Mae'n diolch hefyd i holl swyddogion y gorffennol am eu cydweithrediad dros y blynyddoedd. Mae'r papur mewn dwylo da dan ofal y swyddogion presennol sef Eurfyl, Iola Wyn, Beti Wyn, Rosemarie a Rhian. Diolch hefyd i Alun Davies, Gwasg Aeron am ei gydweithrediad yntau bob mis. Byddwn yn edrych nôl ar ein hamser yn y swydd hon gyda balchder.

Dymunwn yn dda i'r papur bro a'r tîm, yn cynnwys gohebwyr lleol, cyfranwyr ac i'r darllenwyr pell ac agos sydd yn cefnogi er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r papur. Gobeithio y bydd y gwaith pwysig o adrodd hanes a chadw ysbryd y gymuned yn parhau i ffynnu.

Ein dymuniadau gorau hefyd i Jason a Gwen, y cysodwyr newydd a fydd yn dechrau ar y gwaith ym mis Medi. Mawr hyderwn y rhowch yr un gefnogaeth iddynt ac yr ydym ni wedi ei dderbyn.

Gyda phob dymuniad da,

*Wyn a Meirwen*



Jason a Gwen Lye-Phillips

**Y CARDI BACH**

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd**: | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Jason a Gwen Lye-Phillips 07930 520564 46 Resevoir Road Tanerdy Caerfyrddin SA31 2ER |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr:**: | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost i'r Cardi Bach.

e-bost: ycardibach@btinternet.com


Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.

Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.

# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Rydw i'n ysgrifennu'r golofn y mis hwn ym maes awyr Zurich, wrth i fi ddechrau ar y daith adre' i Sanclêr, wedi wythnos wefreiddiol yn cefnogi Tîm Pêl-droed Menywod Cymru yn Ewro 2025 yn y Swistir.

Fel nodwyd droeon ar y cyfryngau ac yn y wasg, roedd cyrraedd y bencampwriaeth hon yn hanesyddol i dîm y menywod, wrth i Gymru gamu ar lwyfan un o'r prif bencampwriaethau pêl-droed am y tro cyntaf erioed. Yn griw o ffrindiau ar y daith, roeddem yn llwyr ymwybodol felly o fawredd yr achlysur nid yn unig i Gymru fel gwlad ond i ferched a menywod o Fôn i Fynwy. A chawsom ni ddim ein siomi. Crëwyd atgofion a fydd yn para oes.

Yng nghanol gwres llethol Luzern fe ymgasglodd rhyw bedair mil o Gymry yn y parth cefnogwyr ar gyfer gêm gyntaf hanesyddol Cymru. Roedd pedair mil o Iseldirwyr yno hefyd yn eu gwisgoedd oren llachar, yn canu ar dop eu lleisiau ac yn dawnsio'n egnïol, felly roedd gornest o'n blaen wrth i ni sicrhau fod ein presenoldeb ni yr un mor amlwg.

Teg dweud fod clywed Yma o Hyd dros yr uchelseinyddion yn foment emosiynol tu hwnt ac yn sicr roedd pawb yn gwybod fod Cymru wedi cyrraedd, ein bod yn gefnogwyr angerddol, ac yn hynod deyrngar i'n tîm.

Ac roedd y parth cefnogwyr yn Luzern fel Steddfod, yn llawn wynebau cyfarwydd a phawb yn yr uchelfannau.

Yn wahanol i'r timau o wledydd mwy, does dim disgwyliadau mawr i gipio'r bencampwriaeth, a phwysau echrydus i gyrraedd y brig. Rydym yn genedl sy'n gwybod ein bod yn aml iawn yn paffio y tu hwnt i'n pwysau. Ac yn sicr, roedd bod yn un o'r 16 gwlad Ewropeaidd i gyrraedd Ewro 2025 yn gamp a hanner. Ac roedd hynny yn destun balchder y tu hwnt i eiriau.

Yr uchafbwynt oedd taith gerdded y cefnogwyr i'r stadiwm rhyw ddwy awr cyn y chwiban gyntaf. Bu'n gyfle nid yn unig i forio canu ond i gael sgwrs â Chymry cyfarwydd ac i wneud ffrindiau newydd ar hyd strydoedd Luzern, wrth i bobl leol a thwristiaid ymgynnull ar y palmentydd i'n cyfarch. A phan ddaeth yr amser i gerdded i mewn i'n seddi a chanu'r anthem, roedd yr emosiynau'n uchel ac rwy'n mawr obeithio i'r Wal Goch greu argraff o flaen camerau'r byd. Anghofiwn y sgôr! Doedd hynny ddim yn mynd i dorri'n hysbryd.

Profiad tebyg gafwyd ar gyfer yr ail gêm yn erbyn Ffrainc yn ninas fechan hyfryd St Gallen. A theg dweud nad yw'r Ffrancwyr gystal cefnogwyr â'r Iseldirwyr. Roedd y parth cefnogwyr yn fôr o goch yn morio canu o flaen y grŵp Adwaith o Gaerfyrddin ac Aleighcia Scott, gydag ambell grys glas yma ac acw. Unwaith eto, cafwyd taith gerdded i'r stadiwm, ac yn sicr Cymru enillodd frwydr y cefnogwyr, gyda miloedd ohonom ar y daith honno, a llond dwrn o Ffrancwyr.

Ar y cae wrth gwrs, roedd y canlyniad i'r gwrthwyneb, ond o leiaf cawsom gyfle i ddathlu gôl gan chwaraewraig sydd wedi rhoi 110% dros ei gwlad dros gyfnod o fwy nac ugain mlynedd. Roedd Jess Fishlock eisoes wedi torri record Gymreig drwy sgorio mwy o goliau nac unrhyw chwaraewr arall boed yn fenyw neu ddyn, a hi sydd â'r nifer uchaf o gapiau. Bellach hi yw'r chwaraewraig hynaf i sgorio gôl ym mhencampwriaeth yr Ewros. Braint oedd bod yno pan dorrodd arwres o Gymraes y record honno. Ac mae'r frawddeg yn neunydd marchnata Cymru yn crynhoi'r daith hanesyddol hon yn berffaith:

Un Jess. Mil o freuddwydion.

*parhad ar dudalen 6*

## GOHEBWYR LLEOL

| | |
|---|---|
| ALMA: | Margaret Evans<br>01994 230761 |
| BANCYFELIN: | Merle Jones<br>01267 211300<br>eleanormerle@icloud.com |
| CAPELI BANCYFELIN a CANA | Parch, Beti-Wyn James<br>beti.wyn@icloud.com |
| BLAENWAUN: | Tegwen James<br>01994 448223 |
| CAPEL MORIAH (Blaenwaun) | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| CEFNYPANT: | Valerie Davies<br>01994 448475<br>vdavies55@outlook.com |
| CLUNDERWEN: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| CWMBACH: | Jane Evans<br>01994 448790<br>teulujames@btinternet.com |
| CWMFELIN MYNACH: | Nansi Evans<br>01994 448392 |
| EFAILWEN: | Angharad Booth Taylor<br>01994 419221<br>angharad.boothtaylor@btinternet.com |
| GELLIWEN: | Peter Crowdie<br>01994 230033<br>peter.crowdie@btinternet.com |
| HENDY-GWYN: | Heather Jenkins<br>01994 240138<br>jenkinsh2809@gmail.com |
| Tabernacl | Heather Jenkns<br>Meryl James<br>meryljames534@btinternet.com |
| HENLLAN - FALLTEG: | Sian Jackson<br>01994 240981<br>jacksonfawr@btinternet.com |
| LOGIN a CWM MILES | Meinir Eynon<br>01437 563540<br>meinireynon@gmail.com |
| LLANBOIDY: | Norah Heseltine<br>01994 448241<br>sales@shwldimwl.com |
| LLANDYSILIO: | Delyth Roblin<br>07882 639867<br>delythroblin@outlook.com |
| LLANGLYDWEN: | Eurfyl Lewis<br>01994 419495<br>eurfyllewis@btinternet.com |
| LLANGYNIN: | Susan Phillips<br>01994 231066<br>siwperiw@gmail.com |
| MEIDRIM: | Patsy Lewis<br>01994 230369<br>talarwen@hotmail.com |
| PENYBONT: | Linda Davies<br>01994 484657<br>lindadavies02061955@icloud.com |
| PWLLTRAP: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| RHYDYCEISIAID: | Doreen Adams<br>01994 240581 |
| RHYDWILYM: | Eilir Davies<br>01994 419649<br>eilirtyrhos@btinternet.com |
| SAN CLER: | Beti Wyn James<br>01994 230966<br>betiwynjames@aol.com |
| TRELECH: | Alyson Harries<br>01994 484359<br>alysonharries@outlook.com |

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Annalyn Daviies*

**Dewis**

A ydych chi'n un da am wneud dewisiadau? Oherwydd pan meddyliwch chi am y peth, mae bywyd yn llawn o orfod gwneud un dewis ar ôl y llall, pu'n a'i ydym yn sylweddoli ein bod yn eu gwneud a'i pheidio.

Mae'r dewis cyntaf yn cael ei wneud drosom. Sef y dewis gan ein rhieni pan fyddant yn gorfod dewis enw. Ond ymhen ychydig iawn o amser, mae'r rhestr hirfaith o ddewisiadau yn dod ar ein traws. Peidiwch â'm camddeall, mae'n bur debyg y dylem fod yn ddiolchgar bod gennym y rhyddid i wneud dewisiadau, rhyddid nad yw'n fraint i nifer yn y byd sydd ohoni.

Ar daith bywyd, efallai y dewis mwyaf yw pa yrfa i'w dilyn? A chyn hynny, pa destunau i'w dewis i'w hastudio yn yr ysgol. Yn fy amser i, roedd y dewis yn llawer mwy cul, felly'n haws. Dewisais i ddilyn gyrfa ym myd addysg, ond os cai rannu cyfrinach gyda chi, ar ôl cwblhau'r cwrs hynny, roedd fy mryd ar fynd i'r Coleg Cerdd a Drama. Cefais glyweliad a chael fy nerbyn! OND, a nawr am y dewis mwyaf bu'n rhaid i mi wneud tan hynny. Mi fyddai rhaid i'm rhieni dalu i mi fynd yno, gan fy mod eisioes wedi derbyn grant i fynd i Goleg Addysg- ni chawswn ail grant.

A dyma'r ddilema. A oeddwn yn barod i ofyn i'm rhieni i'm ariannu am dair blynedd i astudio drama (fe glywai rhai ohonoch yn dweud nad oedd angen i mi ei astudio, gan fy mod yn ddigon o "ddrama queen" fel oedd hi!) Neu, a oeddwn yn barod i roi heibio by mreuddwydion am gael astudio drama a gwneud y dewis doeth, gan ystyried fy rhieni, yn hytrach na'm dyheadau i. Dyna chi ddewis! Dewis tyngedfennol a fyddai'n newid llwybr fy mywyd, mewn gwirionedd. Ond mewn bywyd, dwi'n grediniol y dylech wneud eich dewis, a'i dderbyn a dim difaru, achos dyna oedd y dewis iawn ar y pryd. Fedrwch chi ddim newid y dewis ta beth. Cewch **chi** ddyfalu beth oedd fy newis i, yn y pen draw.

Yn Saesneg, mae yna ddarn o farddoniaeth gan Robert Frost o'r enw "The road not taken." Ynddo, mae'r bardd yn darlunio fel mae'n dod ar draws dau lwybr ac mae'n rhaid iddo ddewis un. Mae'n eu disgrifio mae un yn lwybr mae'n amlwg wedi'i droedio'n dda ond mae'r llall heb ôl llawer o gerdded o gwbl arno. Am ddewis? Pa un i fentro ar hyd ddo. Yn y diwedd mae'n penderfynu mentro troedio ar hyd yr un nad oes llawer arall wedi cerdded arno o'i flaen.

"I took the one less travelled by,
And that has made all the difference."

Mae yna wers i ni fan hyn. A ydyn ni'n barod i ddewis y llwybr nad oes llawer wedi troedio arno o'r blaen? Neu a fyddwn yn gwneud y dewis hawdd, a dilyn y llwybr mae pawb arall wedi ei ddilyn, yr un haws, heb fod yn heriol o gwbl.

Cawn ein hannog yn yr emyn adnabyddus i fentro, a pheidio ofni'r daith o'm blaenau. Wrth gredu yn Nuw, fe cawn ein harwain, ein cynnal ac mi fydd hynny'n ein galluogi i gario ymlaen a gwneud y gwaith-

"Er i'r llwybr dy ddiffygio,
Er i'r anial fod yn faith,
Bydd yn wrol, blin neu beidio;
Cred yn Nuw a gwna dy waith."

Mae'r dewis yn hawdd wedyn ond tydi, dilyn ffordd Iesu yw'r dewis cywir.

# Clonc a Phosau John Arfon

Rwyf wedi mynychu tair angladd yn ystod yr wythnosau diwethaf hyn. Bu'r gyntaf yn dipyn o ymdrech. Bu raid i mi ddala'r bws i Gaerfyrddin, yna i Aberystwyth ac oddi yno i Gricieth lle arhosais y noson mewn gwesty. Y bore canlynol, ar fore godidog o braf, aeth cyfnither â mi i fynwent Eglwys Capel Curig lle cafwyd gwasanaeth angladdol hyfryd, i fy nghefnder cyntaf, ar lan y bedd. Wedi sgwrsio gyda'm perthnasau a chael ychydig o luniaeth, rhaid oedd dychwelyd ar frys y ôl i Gricieth i ddala'r bysiau yn ôl i Gaerfyrddin. Trên wedyn i'r Hendygwyn a cherdded adref o'r stesion wedi blino'n lân ond mor falch fy mod wedi gwneud yr ymdrech.

Y bore canlynol trafaelio i Eglwys Llansadwrnen, eto ar ddiwrnod bendigedig o braf i dalu'r deyrnged olaf i Lynette James, Bryngwenllian, Hendygwyn. Roeddwn yn hoff iawn o Lynette a bum yn ei dysgu flynyddoedd yn ôl. Roedd pob amser yn serchus gyda gwên ar ei hwyneb a hynny yn cuddio ei salwch a'i gofidiau dros y blynyddoedd diwethaf. Bu ei gŵr Claude yn ofalus tu hwnt ac yn arbennig o dda iddi a'i chludo yn aml i'r gwahanol ysbytai ac ni fyddai'r un ohonynt byth yn cwyno. Byddai pob tro yn falch o weld unrhyw un gyda gwen a chroeso. Roedd yr Eglwys dan ei sang ac roedd hynny yn lewyrchiad o boblogrwydd a'r cariad roedd gan bawb at Lynette. Cydymdeimlwn yn fawr iawn gyda Claude a'i mab Gwyn, a oedd yn gannwyll ei llygaid, ac hefyd i'w pherthnasau oll. Bydd hiraeth mawr ar ei hôl.

Yna, ar ddiwedd mis Mehefin bum yn angladd Eira Parry (Llanddewi Efelffre) yng Nghapel Bethel. Yr oedd Eira wedi bod dros 6 mlynedd yng Nghartref Gofal Waungron lle y bu'n hapus iawn ac yn wir roedd fel brenhines y lle ac yn boblogaidd gan bawb. Deuthum i adnabod Eira oherwydd y gofal, y caredigrwydd a'r cariad a ddangosodd i Ruby trwy'r amser y buont yn ffrindiau ac yn enwedig dros fisoedd olaf gwaeledd Ruby. Byddaf yn teimlo ei cholli yn ddirfawr, roedd yn fraint cael ei hadnabod. Estynnaf fy nghydymdeimlad dwysaf i Michael a Denise ac i'w teuluoedd oll.

**Dyma atebion Cwrosw a Chwilrif y mis diwethaf.**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | O | X | O | X |
| X | X | O | X | O | O |
| O | X | X | 0 | X | O |
| X | O | O | X | 0 | X |
| O | O | X | O | X | X |
| O | X | X | O | X | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | 5 | 2 | 3 | 6 | 7 | 9 | 1 | 8 |
| 1 | 8 | 7 | 5 | 9 | 4 | 6 | 3 | 2 |
| 9 | 3 | 6 | 1 | 2 | 8 | 5 | 7 | 4 |
| 7 | 9 | 5 | 8 | 4 | 2 | 3 | 6 | 1 |
| 2 | 6 | 4 | 7 | 3 | 1 | 8 | 9 | 5 |
| 3 | 1 | 8 | 6 | 5 | 9 | 4 | 2 | 7 |
| 8 | 4 | 3 | 2 | 1 | 6 | 7 | 5 | 9 |
| 5 | 2 | 9 | 4 | 7 | 3 | 1 | 8 | 6 |
| 6 | 7 | 1 | 9 | 8 | 5 | 2 | 4 | 3 |

**Dyma ddau arall i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | | | X | | O |
| | | | X | O | |
| X | | | O | X | |
| | | O | | | |
| | O | | | | |
| O | | | | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | | | 7 | | 4 | 2 | | |
| 1 | | 2 | | | | | 3 | |
| 4 | | | | 5 | | 6 | | |
| | 3 | | | | | | 6 | |
| | 5 | 4 | | | | | | 7 |
| 2 | 8 | 1 | | | | | | |
| | | 7 | | 1 | 9 | | | |
| | | | 8 | 2 | | | 9 | |
| | | | | | | 5 | 8 | 2 |

**Dyma atebion posau y mis diwethaf.**

Y cyntaf oedd gosod llythrennau mewn grid er mwyn creu dyfyniad o'r Beibl. Dyma'r ateb:

**"Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, y tri hyn, a'r mwyaf o'r rhai hyn yw cariad. " (Corinthiaid)**

Yr ail bôs oedd gosod y darnau a ddangoswyd i greu croesair cywir. Dyma'r ateb:

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ■ | C | A | S | G | L | I | A | D |
| E | ■ | S | ■ | R | ■ | D | ■ | E |
| D | A | T | G | U | Dd | I | A | D |
| R | ■ | ■ | ■ | G | ■ | O | ■ | F |
| Y | N | Y | S | ■ | E | M | I | R |
| Ch | ■ | M | ■ | O | ■ | ■ | ■ | Y |
| I | E | U | E | N | C | T | I | D |
| A | ■ | N | ■ | I | ■ | R | ■ | U |
| D | I | O | L | Ch | G | A | R | ■ |

**Y pôs cyntaf mis yma yw Chwilair yr Eisteddfod**

A fedrwch ganfod y llefydd bu'r Eisteddfod Genedlaethol yno dros y blynyddoedd. Croeswch allan y rhai a welir yn y rhestr odditano, ac os gwnewch hyn yn gywir dylech gael rhai blychau heb eu croesi allan. Os darllenwch y llythrennau hyn i lawr mewn trefn dylech gael 2 le arall yr ymwelodd yr Eisteddfod â hwy.

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel **dwy** lythyren ond anwybyddwch y geiriau sydd rhwng y cromfachau

| | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | D | E | W | L | E | N | A | L | L | L | Y | H | R | H | O | S |
| C | Y | C | N | M | E | R | T | H | Y | R | T | U | D | F | U | L |
| N | O | F | A | Y | A | Y | W | H | T | E | A | H | T | R | O | P |
| I | B | R | F | E | L | B | A | L | A | B | E | R | D | A | R | O |
| D | G | N | W | R | R | E | E | R | E | I | R | P | A | N | I | R |
| D | U | Y | N | E | Y | D | D | R | G | A | Y | W | L | O | R | T |
| R | R | W | E | R | N | N | Y | O | G | L | R | L | L | I | R | H |
| Y | G | D | D | T | E | S | N | D | L | E | I | L | A | B | A | M |
| F | D | L | D | W | T | G | E | A | D | G | L | H | N | Y | B | A |
| R | D | A | G | W | E | A | E | O | N | R | E | E | E | G | N | D |
| E | Y | M | Y | T | E | O | B | W | L | T | R | L | L | R | U | O |
| A | W | T | S | Y | W | O | P | E | A | D | L | I | L | E | H | G |
| C | H | E | G | L | Y | N | D | W | R | T | I | L | I | A | T | R |
| C | A | E | R | N | A | R | F | O | N | A | R | N | E | C | U | W |
| M | D | D | I | R | P | Y | T | N | O | P | F | E | A | C | H | G |
| D | Y | F | F | R | Y | N | O | G | W | E | N | A | B | L | R | O |
| I | N | A | M | A | N | Y | R | B | T | S | W | R | N | A | L | L |

**Dyma restr o'r llefydd sydd eisiau eu croesi allan.** ⇨

Aberafan, Aberdar, Abergele, Abertawe, Aberystwyth, (Y) Bala, (Y) Barri, Brynaman, Caerdydd, Caerfyrddin, Caergybi, Caernarfon, Corwen, Cwm Gwendraeth, (Bro) Delyn, Dolgellau, Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen, (Taf) Elai, Eryri (a'r Cyffiniau), (Bro) Glyndwr, Llanelli, Llanelwedd, Llanidloes, Llanrwst, Maesteg, Maldwyn (a'r Gororau), Nedd (a'r Cyffiniau ), (Bro) Ogwr, Pontypridd, Porthaethwy, Porthmadog, (De) Powys, Pwllheli, Rhos, Rhuthun, (Y) Rhyl, (Yr)Wyddgrug.

**Dyma'r ail bôs**

Ychydig amser yn ôl gofynnwyd imi a fedrwn greu croesair gyda'r cliwiau i gyd yn anagramau. Dyma'r ail gystadleuaeth y mis hwn. Cymerir ch, dd, ff, ng, ayyb fel UN llythyren ym mhob ateb ond gallent fod ar wahan weithiau er mwyn ceisio gwella'r cliw.

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ■ | 2 | 2 | | 3 | | ■ | 4 | 5 | | 6 | | ■ |
| 7 | ■ | | ■ | | ■ | 8 | ■ | | ■ | | ■ | 9 |
| 10 | | | | | | | ■ | 11 | | | | |
| | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | |
| 12 | | | | | ■ | 13 | 14 | | | | | |
| | ■ | ■ | ■ | 15 | 16 | | | ■ | ■ | | ■ | |
| ■ | 17 | 18 | | | | ■ | 19 | 20 | | | | ■ |
| 21 | ■ | | ■ | ■ | 22 2 | 23 | | | ■ | ■ | ■ | 24 |
| 25 | | | | 26 | | | ■ | 27 | | 28 | | |
| | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | |
| 29 | | | | | ■ | 30 | | | | | | |
| | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | | ■ | |
| ■ | 31 | | | | | ■ | 32 | | | | | ■ |

Dyma'r anagramau:

Ar draws

1. DIL RHYL
4. ALL DYDD
10. A BU DRYCH ?
11. GORCH, O !
12. CWRSO
13. EITHR WIN
15. O BLE ?
17. 'DDEUTU
19. TOFFI, W !!
22. RADA
25. UN - UN PEL
27. CWLWM
29. O DIAR !
30. MEGIN ED
31. DIWEL
32. Hi,ONO !!

I Lawr

2. FAN CI
3. O Y DDYNES !
4. I GARNO
6. DERI I DI
7. BOTES
8. NOS GU
9. SGRŴS
14. AWEL
16. UBAN
18. DU FU DDOD
20. FFRWD ROY
21. A POER
23. DUW ED
24. GYLPU
26. MINOA
28. MYNCU

*Cynigir gwobr o £5 a llyfr i'r ail, am gwblhau y ddwy gystadleuaeth yn hollol gywir. Atebion os gwelwch yn dda i John Arfon Jones, Cilhaul, Heol y Gogledd, Hen Dŷ Gwyn ar Daf, SA34 0AX, erbyn Awst 20 fed.*

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin,
San Clêr, Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Mis arall wedi gwibio heibio a'r Cardi Bach yn ein siopau unwaith yn rhagor. Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Da gweld bod rhif aelodau'r Clwb 200 yn cynyddu, er bod digon o le i sawl un arall wrth gwrs! Dyma'r manylion os nad ydych eisoes wedi ymaelodi - danfonwch siec ataf fi am £10, yn daladwy i 'Clwb 200 Y Cardi Bach', neu mae modd talu drwy system BACS, felly 40-46-27.....91020765.....Clwb 200 Y Cardi Bach....£10.

Cofiwch fod y gwobrau misol yn £20 a £30 ac efallai taw chi fydd yn lwcus y tro nesaf!

Dyma enwau'r aelodau sydd newydd ymuno:-
Hazel Smith, Gwalia, Clunderwen
Hazel Smith, Gwalia, Clunderwen
Mared a Heledd Williams, Bryneithin, Bryn Iwan

Llongyfarchiadau i enillwyr fis Mehefin:-

£30 - 278 - Carys James, Trevaughan Lodge, Hen Dŷ Gwyn
£20 - 257 - Trevor a Morfydd Phillips, Hazeldene, San Clêr

Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a chadwch yn ddiogel,

Rhian

Nodyn bach i orffen - wrth ffarwelio â Wyn a Meirwen, hoffwn o waelod calon, ddiolch iddynt am bob cymorth a chyngor yn ystod fy nghyfnod yn rhedeg y clwb. Mae wedi bod yn fraint cydweithio gyda hwy a dymunaf bob iechyd ac hapusrwydd iddynt yn eu hymddeoliad. Diolch yn fawr iawn i chi'ch dau.

*Colofn y mis - parhad o dudalen 2*

Ac o un arwres i arwyr ein hardal ni. Dyma'r tro olaf i mi anfon y golofn hon at Wyn a Meirwen, sydd wedi cysodi'r Cardi Bach am flynyddoedd maith. Diolch o galon i chi am eich gwaith diflino a chyd-weithio rhwydd. Ymhlith y cannoedd o luniau rydw i wedi eu tynnu yn y Swistir, roedd dewis un ar gyfer y golofn hon yn dasg ryfeddol o hawdd. Rhaid oedd dewis y brodyr Snelson, tri o wyrion Wyn a Meirwen, wrth i ni flasu awyrgylch gêm gyntaf Cymru yn Ewro 2025.



## Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda

# Taith Gerdded

**Bore dydd Sadwrn**
**20fed o Fedi 2025 am 10 yb**

**Dechrau a gorffen**
**yng Nghapel Cefnypant**

**Yr elw i'w rannu rhwng:**
**Unedau Cemotherapi Ysbytai**
**Llwynhelyg a Glangwili**
**Meddygfa Rhiannon, Arberth**
**Cymdeithas Motor Neurone**

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn: 01437 563300

IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469


W. J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Y Definite thing
e.e, Y Gath • Y Plentyn • Y Tŷ • Y Papur

Ymarfer: Welodd Tom mo'r gath / Welodd Tom mo fy nghath

Pob lwc.
Joiwch yr haf a phob lwc i'r rhai sydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod eleni.

*Albie*

"MO"
Trowch y brawddegau hyn i'r negyddol.
(Cofiwch - treiglad Llaes c, p, t, treigliad medal – b, d, g, ll, m, rh
e.e. Gwelodd e ti Welodd e mohonot ti

1. Prynais i'r bwyd.
2. Prynais i fwyd.
3. Darllenodd e fe.
4. Cawn ni nhw 'fory.
5. Clywon nhw'r car.
6. Deallwch chi'r cyfan.
7. Galla i'ch helpu chi.
8. Clywais i ei char hi.
9. Gweli di Ffred yno.
10. Cafodd e dy lythyr di.
11. Gwnaethon nhw'r gwaith cartre.
12. Prynais i fe.
13. Gwnes i ei brynu fe.
14. Derbynith y cyngor y cynllun.

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO




## PENBLWYDD HAPUS



Pen-blwydd Hapus i Gwilym Huw yn 6 oed ar 30ain o Orffennaf. Cariad mawr, Mami, Dadi, Gruffudd Llewelyn a Mamgu Waunfach, Login.



Penblwydd hapus Aneurin yn 5 oed, cariad mawr Mami, Dadi, Luned a Mamgu a Datcu Colman House. X

PENBLWYDD HAPUS!



Penblwydd 1af hapus i Tomi, mab bach Dafydd a Kelly, brawd bach Nola. Mae Tomi yn ŵyr i Delyth a John, Pwlltrap a Sandra a Simon, Abergwili.





HUW OWEN
CLUDIANT



Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

CWMNI PEIRIANNEG HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937



# MERCHED Y WAWR

## Cangen Gronw yn dathlu'r Aur

Eleni 'rydym yn dathlu 50fed penblwydd y gangen. Byddwn yn dathlu ar brynhawn Iau, Medi 25ain (ar union y dyddiad dechreuodd y gangen), yng Ngwesty yr Hen Ysgol San Clêr. Estynnwn wahoddiad i unrhyw gyn-aelodau i ymuno gyda ni yn y dathliad. Cysylltwch â Mary Phillips ar 01994 448333.

---

## Cangen San Cler

Cyfarfu'r Clwb Darllen ar Fehefin 23ain ym Methlehem Newydd. Y ddwy gyfrol i'w trafod oedd "Wythnos Ryfedd Gwilym Puw" ac "Ochr Treforys o'r Dre" gan Neil Rosser. Bu trafod brwd ar y cyfrolau a llawer o hwyl a chwerthin. Mwynhawyd y llyfrau. Bydd y Clwb Darllen yn cyfarfod nesaf ar Fedi 1af am 7 o'r gloch ym Methlehem Newydd a'r gyfrol i'w thrafod fydd "Dau" gan Bethan Nantcyll. Diolch yn fawr i Tracey o Lyfrgell San Cler am ei chymorth yn cael y cyfrolau dan sylw atom mewn amser byr. Croeso i aelodau newydd ymuno â ni.

Aeth Lilwen, Iona a Beti-Wyn ar daith Merched y Wawr i Lerpwl ddiwedd Mehefin. Mwynhawyd yn fawr y gweithgareddau: ymweld â Chaer ar y ffordd i Lerpwl, dysgu am hanes Cymry Lerpwl gan Gari Wyn (sydd wedi ysgrifennu llyfr am ddylanwad y Cymry yn Lerpwl) ar daith dywysedig o gwmpas y ddinas ar y bore Sadwrn a chael cwis difyr gan Llion Williams wedi swper nos Sadwrn. Fe benderfynom hefyd fynd ar y Magical Mystery Tour yn olrhain hanes y Beatles ar y bore Sul a mwynhau hwnnw'n fawr hefyd. Penwythnos arbennig a chwmni difyr – dysgu llawer a lot o chwerthin!



Criw ardal y Cardi Bach yn Amgueddfa Lerpwl



Yng Nghlwb y Cavern

Diolch i Eileen a Iona am gynrychioli'r Gangen yn y Gwasanaeth Dinesig ar Orffennaf 6ed.

**Coginio**
Winnie James Phillips

**PWDIN HÂF**

CYNHWYSION A DULL

- Irwch dun bara 2 pwys a'i leinio â darn mawr o 'clingfilm'.
- Cynheswch 1kg (2 pwys/2 owns) o ffrwythau haf yn ysgafn mewn sosban gyda 25g/1 owns o siwgr mân a 4 llwy fwrdd o gordial cyrens duon (dewisol) nes bod y sudd yn rhedeg.
- Mudferwch am 5 munud.
- Arllwyswch y ffrwythau a'r sudd i ridyll uwchben powlen a'i adael am 10 munud.
- Torrwch y crystiau oddi ar 9 sleisen o fara gwyn a'u trochi yn y sudd.
- Defnyddiwch 7 sleisen i leinio gwaelod ac ochrau'r tun, ochr y sudd allan.
- Rhowch y ffrwythau yn y tun, arllwyswch y sudd sy'n weddill drosto a'i orchuddio â'r 2 sleisen olaf.
- Gorchuddiwch â'r 'clingfilm' a'i bwyso i lawr gyda rhai tuniau a soseri.
- Oerwch dros nos. I'w weini, trowch y tun drosodd dros blât gweini ac ysgwydwch y pwdin yn ysgafn.
- Addurnwch â 250g/9 owns o ffrwythau haf.

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326

DAVIES Y GWRES A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com

T. D. LADD a'i GWMNI
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

# Colofn Llên *gan Marian Thomas*

Erthygl Llên Cardi Bach Gorffennaf 2025
Y sylw ar glawr nofel olaf y drioleg gan Sonia Edwards yng nghyfres dditectif Keily ac O'Shea gan yr adolygydd, Bethan Mair yw: *'Er cymaint dwi'n licio Richard Osman dwi'n licio Sonia Edwards yn well!* Wel dyna i chi ganmoliaeth i'r nofel dditectif **Tri** ac fe fyddwn i'n eilio'r farn honno. Mae'r ddau nofelydd yn ysgrifennu pob pennod o safbwynt pobl wahanol sy'n ffordd effeithiol o greu cymeriadau byw. Mae **Tri** yn hynod ddarllenadwy a phob pennod yn y trydydd person heblaw rhai'r cymeriad, Mono; y ddeialog yn fyrlymus ac yn adlewyrchu iaith lafar naturiol y gogs – felly'n iawn i mi! Mae'n rhaid cyfaddef fod cymaint o amser wedi mynd heibio ers darllen y ddwy stori flaenorol – **Braw Agos** ac **Erchwyn** – fel nad oeddwn yn medru cofio pwy oedd pwy ar y dechrau a chymerodd ymdrech i geisio eu hadnabod eto.


Mae cryn sylw wedi bod i nofel ddiweddaraf Fflur Dafydd – **The House of Water** – a hithau yn dod o Gaerfyrddin ac yn awdur a sgriptwraig amlwg – cyfresi megis *Parch, 35 Awr* a *35 Diwrnod*. Mae penodau'r nofel hon eto o safbwynt y prif gymeriadau gwahanol – Urien, Iona, Lisa, ac un, sef Cain yn lleisio ei feddyliau ei hun. Maent hefyd yn symud o'r gorffennol, cyn y drychineb ddyfrllyd i'r presennol wrth geisio datrysiad. Nofel arswyd yw hi, un deimladwy, yn llawn cyfrinachau, wedi'i saernïo'n rhyfeddol o grefftus ac er yn Saesneg , yn gwbl Gymreig. Bob hyn a hyn ceir dyfyniadau o lyfr y tad, Eurov Griffri am Gymru, yn dilyn trefn yr wyddor. Does dim syndod bod nofel â theitl gyda dŵr yn cynnwys T am Tryweryn! Mae'r darnau hyn yn athronyddol ac yn ymdrin â themâu'r nofel o berthyn a pherthynas. Mae'n tynnu ar brofiad gwaith ei gŵr fel ymgymerwr gyda sawl golygfa dywyll mewn corffdy. Troswyd ei nofel **Y Llyfrgell** yn ffilm – tybed a gaiff hon ei haddasu hefyd?

Nofel gwbl wahanol i'r uchod yw **Y Tŵr** gan awdur ifanc, Rebecca Thomas. Mae heriau cyllidol prifysgolion wedi bod ar y newyddion yn ddiweddar ac mae hon yn dilyn y darlithydd, Dr Heledd Owen, sy'n gweithio mewn prifysgol sydd yn symud i gampws newydd. Hi sy'n adrodd y stori sy'n taro cloch gyda mi. Mae sawl sefydliad yn wynebu heriau tebyg a swyddi darlithwyr yn cael eu bygwth. Mae hon yn werth ei darllen. Fe'i disgrifir fel nofel ddychanol, ddystopaidd!

Fe glywais Rhianedd Jewell yn trafod ei nofel gyntaf ar raglen *Pnawn da* a chododd awydd arnaf i'w darllen. Stori fer hir yw **Tempo** mewn gwirionedd gyda thermau cerddorol Eidaleg yn deitl i bob pennod sy'n adlewyrchu eu tempo a'u hystyr. Mae geirfa gerddorol wedi'u gweu trwy'r cyfan, yr arddull yn gelfydd a does dim rhyfedd i'r gyfrol fechan hon ddod yn agos i'r brig am y Fedal Ryddiaith y llynedd. Mae cyfeillgarwch annisgwyl rhwng hen wraig a bachgen ifanc ar ôl iddo symud tŷ gyda'i fam yn dilyn tor-priodas – stori am berthynas, cariad a thensiynau.

Nofel gerddorol yw **Hiraeth Neifion** gan Simon Chandler hefyd – efallai i chi gofio i mi sôn am ei nofel gyntaf ryfeddol gan y Sais o Fanceinion sydd yn rhugl bellach yn y Gymraeg. Aeth â ni yn **Llygad Dieithryn** o Gymru i'r Almaen yn ei nofel gyntaf ac felly eto gydag Ifan, y chwarelwr ifanc o Flaenau Ffestiniog yn dianc i'r Almaen ar ôl crafu bywoliaeth yn Llundain fel pianydd jazz. Mae'n stori garu rhyngddo a'r gantores Emmi a'i chefnlen yw hanes yr Almaen yn y blynyddoedd yn arwain at yr ail ryfel byd. Ffuglen yw hi ond mae cymeriadau hanesyddol y cyfnod ynddi a'r nodiadau yn y cefn arnynt ac am ddigwyddiadau perthnasol yn fodd i grynhoi'r cyfnod na wyddwn i lawer amdano. Mae Louis Armstrong, Duke Ellington a cherddorion jazz eraill yma; hiliaeth, brad a thwf brawychus Natsïaeth. Ceir dyddiad a lleoliad ar ddechrau pob pennod, y mwyafrif yn digwydd yn ninas Berlin ond y llythyru â hanner brawd yng Nghymru yn cynnal y cysylltiad o dro i dro. Darllenwch hon, mae'n wers hanes ar ffurf stori hynod o deimladwy a gafaelgar.

Preseli Services Cyf
Llanddewi Efelffre, Arberth. SA67 7PD
Oil4Wales
Olew dros Gymru
CERDYN TANWYDD
preselistorage



R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir

Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# LLANGYNIN

**Cydymdeimlad**



Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Granville Davies, Angorfa, neu 'Granville Llain' fel yr adnabyddid ef yn lleol, priod hoff Mary, tad annwyl Nigel, tad-yng-nghyfraith Sian, tadcu Gareth, Carys a Jo a hen dadcu Alaw. Bu farw Granville ar Fehefin 17eg yn 93 oed.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa i ddiolch am fywyd Granville yng Nghapel Bethlehem Newydd, Pwll Trap, ddydd Llun Gorffennaf 7fed. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ei weinidog, y Parchedig Aron Treharne BD, wedi'i gynorthwyo gan y Parchedig Geraint Morse.

Wrth ddathlu bywyd Granville a thalu teyrnged iddo, cyfeiriodd y Parchedig Aron Treharne ato fel gŵr diwylliedig amrywiol ei ddiddordebau a chafwyd cyfle i glywed straeon, rhannu lluniau ac atgofion hyfryd o'r ffermwr, y pysgotwr, y gwenynwr a'r bowliwr o fri. Hoffai'r teulu ddiolch i'w perthnasau, cyfeillion, a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth, a diolch yn arbennig i ofalwyr 'Community Interest Care' am eu gofal tyner o Granville yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Diolch i'r Parchedig Aron Treharne a'r Parchedig Geraint Morse am eu gwasanaeth a diolch i'r organyddes Mrs Anne Harries. Diolch i Glanmor Evans a'i Fab am eu cefnogaeth a'u trefniadau trylwyr ac i Sue a Staff yr 'Old Board School" am baratoi'r lluniaeth. Mae eu diolch yn fawr hefyd i Gapel Bethlehem Newydd, Pwll Trap, am ganiatâu iddynt gynnal y Gwasanaeth Coffa yno.

Estynnwn gydymdeimlad â Mark a Rhian White , Garnwen, ac â'r holl deulu ar farwolaeth cefnder Mark, sef Richard Hanson o Chesterfield a fu farw ar ddiwedd mis Mehefin yn 54 oed, Cofiwn hefyd am Llinos , Geraint a'r teulu, Carreglwyd, ac am Roy Reynolds, Tymore, ar farwolaeth wncwl Llinos a brawd-yng-nghyfraith Roy, sef Ken Davies o Dafarnspeit.

**Gwellhad buan**

Mae Marcia Morris, 6 Llyscoed wedi derbyn penglin newydd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli, ac mae Mary Edwards, Pleasant View, wedi treulio cyfnod arall yn ysbyty Glangwili. Da gweld y ddwy bellach wedi dod adre. Danfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i'r ddwy ohonynt.

**Cymdeithas Gymraeg Llangynin**

Nos Fercher yr 8fed o Hydref bydd Cymdeithas Gymraeg Llangynin yn cyfarfod yn Neuadd y Bryn am 7 o'r gloch yr hwyr pan gynhelir cyfarfod cyntaf y tymor newydd. Jiwli Higginson, Cyn Bennaeth Ysgol y Frenni, fydd y siaradwraig wadd ar y noson. Croeso cynnes i bawb.

---

# MEIDRIM

Rydym yn dathlu 50fed penblwydd Henoed Meidrim y mis yma, felly penderfynwyd cael te parti i ddathlu'r garreg filltir hon. Daeth yr aelodau at ei gilydd i fwynhau te mefus hyfryd, blasus â baratowyd gan Christine James. Roedd gwestai arbennig gennym sef Alan Glanville sydd wedi ein gyrru mor ofalus ar sawl gwibdaith gofiadwy Cofnodwyd rhai drwy arddangosfa o luniai a sylwadau gan Patsy, Meinir, a John.

Ar Awst y 5ed byddwn yn mynd i weld gwaith coed Gwyndaf Davies yn Nhrefechan, yna ymlaen i Westy Llwyn Iorwg i gael pryd o fwyd. Yn rhoi raffl - Doreen Thomas, Sheila Jones a John Lewis.




Arddangosfa hanes dathlu 50

**CJ Waste cyf.**
Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com
Prisiau ardderchog
Gwagio tanciau septig / carthbyllau
Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr, SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR
*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*
***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***
Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*
Monumental Masons
*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390



Aelodau Henoed Meidrim

# LLANBOIDY

**Capel y Trinity**

Roedd dydd Sul, Mehefin 22ain yn achlysur trist sef oedfa olaf y gweinidog Guto Llywelyn yn y capel cyn iddo adael am ei ofalaeth newydd yn Drefach Llanelli.

Wedi'r bregeth bu'r ysgrifenyddes Dorothy Morris yn diolch iddo am ei wasanaeth ar hyd y blynyddoedd, ei gyfeillgarwch ac am fod yn fugail da i'w aelodau cyn dymuno'n dda iddo yn Drefach. Cyflwynodd y trysorydd, Delyth Dent rodd i Guto ar ran aelodau'r Trinity mewn cydnabyddiaeth o'i wasanaeth yn Llanboidy.

Diolchodd y gweinidog i'r aelodau am y rhodd a'r dymuniadau da ac am eu ffyddlondeb i'r capel, cyn i bawb ymuno yn y festri am dished o de a bisgedi, cyfle i gymdeithasu cyn ffarwelio â Guto.

**Sefydliad y Merched**

Cynhaliwyd cyfarfod mis Mehefin ar y 12fed o dan lywyddiaeth yr Is-Lywydd Gwen Collard. Croesawodd pawb i'r cyfarfod ynghyd â'r wraig wâdd Caren a roddodd arddangosfa ar drefnu blodau wedi eu sychu, gyda'r aelodau yn cael tro ar drefnu rhai eu hunain. Diolchodd Gwen iddi.

Enillydd y gystadleuaeth am lunio neges brys yn dechrau â'r llythyren I oedd Cheryl gyda Jayne yn ail a Jan yn drydydd. Bydd Sioe y Sir ar Orffennaf 12fed.

**Cyfarchion Penblwydd**

Dymuniadau gorau i Anne Lewis, Y Ffawydd bydd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed - oddi wrth aelodau Capel y Trinity.

**Diolch**

Dymuna Angela Murray ddiolch o waelod calon i'r teulu a ffrindiau lu am bob caredigrwydd yn ystod ei salwch tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Mae'n gwerthfawrogi pob ymweliad, rhodd a neges yn dymuno gwellhad buan iddi. Diolch yn fawr iawn.

# RHYDWILYM

Rydym yn ddiolchgar iawn i Shan Jones, teulu Brian Llewelyn a'r Parch. Peter Thomas am eu gwasanaeth yn ystod mis Mehefin. Bydd Tudur Dylan Jones a Hefin Wyn yn cymeryd at wasanaethau mis Gorffennaf. Ni fydd gwasanaeth ym mis Awst, a bydd y Cymun nesa yng ngofal Lyndon Lloyd am 10.30 ar Fedi'r 7fed.

Cawsom oedfa hyfryd fore Sul, 28ain o Fehefin pan fu y Parch Peter Thomas gyda ni yn agor y Capel ar ei newydd wedd ar ôl y gwaith adnewyddi. Pleser oedd cael cwmni Meryl hefyd. Daeth cynulleidfa luosog ynghyd i ddathlu'r achlysur.



Y Parch. Peter Thomas yn agor y capel



Aelodau Rhydwilym yn dilyn agor y capel

Gwelwyd rhaglen ddiddorol ar S4C Nos Lun, 7fed o Orffennaf, sef y Byd ar Bedwar, pan fu tipyn o hanes a thrafod am yr anghyfiawder mawr yn Ffynnon Samson 'nol yn 1976.
Roedd Griff a Pattie yn aelodau ffyddlon yn Rhydwilym.

# BLAENWAUN

**Moriah**

Ar Sul cyntaf Gorffennaf y 6ed aeth aelodau ar wibdaith yng nghwmni aelodau Blaenycoed a Bryn Iwan. Teithiwyd gyda'n gilydd mewn bws i eglwys y Tabernacl, Treforys y capel mwyaf yng Nghymru.
Mawr fu'r syndod at ysblander a mawredd yr adeilad. Arweiniwyd ni mewn oedfa gan y Parchedig Gareth Ioan gyda ysgrifennydd pob eglwys yn cyflwyno yr emynau. Thema'r bregeth oedd "Ble mae Duw yn byw?" a'r

neges oedd y pwysigrwydd ei fod yn byw yn ein heneidiau a'n gweithredoedd.

Cafwyd datganiad arbennig ar yr organ bibau ysblennydd wrth ganu, gyda chreu naws cofiadwy. Rhannodd y bonheddwr David Gwyn Jones ei wybodaeth eang yn dangos ei wir ddiddordeb yn yr achos a'r adeilad.

Cawsom fynd i'r hen festri i gael lluniaeth, hon newydd gael ei hail wneud yn Ganolfan Cymunedol Treforus. Dangoswyd, ar sgrîn fîdio, tipyn o hanes o'r gwaith ail wneud yr adeilad ac o achlysuron arbennig. Wedi cymdeithasu am dipyn, diolchodd y gweinidog am y croeso twym galon.

Diwrnod i gofio i bawb a diolch i'r diweddar cyn ysgrifennydd Blaenycoed Elsbeth Page, a'r ysgrifennydd presennol Delme Phillips am y trefniadau. Diolch hefyd i Alan o gwmni Bysis Cenarth am yrru mor ofalus a sicrhau bod pawb adre yn sâff.

Treuliwyd amser wedyn yn mwynhau ein harfordir arbennig a chael bwyd ar y ffordd adre yn Llangennech.



Dyma lun o'r aelodau o'r eglwysi aeth ar y wibdaith yng nghwmni David Gwyn Jones (rhes flaen ail ar y chwith).

**Oedfaon**

Diolch i Arwel Evans am ei wasanath ym mis Mehefin. Dim oedfa ym mis Awst.

Cymun mis Medi ar y 7fed am 10.30 yng ngofal ein gweinidog Parchedig Gareth Ioan.

Medi 28ain: Oedfa undebol Bryn Iwan 2 o'r gloch yng ngofal y Parchedig Gareth Ioan.

Pob dymuniadau da i Pat Davies, Pilmawr sydd yn disgwyl llawdriniaeth.

# PWLL TRAP

Penblwydd Hapus i Eleri Evans, Clos Nathaniel a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 60 oed ar ddechrau Mehefin. Hefyd roedd Dorothy Jones, Llwynteg, yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed. Penblwydd Hapus iddi hi hefyd. Roedd Marlene Lewis, Hafan Dawel, yn 90 oed ar Orffennaf 11eg. Dymunwn benblwydd hapus iddi a da deall ei bod ar wellhad ar ôl bod yn anhwylus yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â Jim a Mair Davies, Gorsfach, a'r teulu ar farwolaeth brawd Jim, sef Ken Davies o Tavernspite.

**Bethlehem Newydd**

Cafwyd cwmni aelodau gofalaeth Tabernacl Caerfyrddin yn yr oedfa ar Fehefin 15fed fel rhan o'u pererindod. Cafwyd oedfa gan yr aelodau ac yna cafwyd hanes y newidiadau i'r capel gan Rhodri a hanes gweithgareddau Tŷ Croeso gan Annalyn. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned yn dilyn yr oedfa. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo yn yr oedfa neu wrth weini lluniaeth a diolch i aelodau'r Tabernacl am eu hymweliad.





BELLISSIMO
Blodau gan
Kathy Bizzotto
(Llandysilio)
ar gyfer pob achlysur.
Defnyddir blodau
tymhorol lleol.
Ffôn: 07944 248973
e-bost:
kathbizzoto@gmail.com



SAER COED
IFAN LEWIS
CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
PLYMIWR
Gosod ystafelloedd ymolchi
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

Maria Evans oedd â gofal yr oedfa ar Fehefin 29ain a chafwyd oedfa fendithiol yn ei chwmni.

Oedfa gan yr aelodau am hanes Esra gafwyd ar Orffennaf 6ed a gweinyddwyd y Cymun gan Annalyn. Clywyd am angen cymorth ar frys i berson ddi-gartref yn San Cler a danfonwyd £100 tuag at dalebau Greggs yn dilyn casgliad sydyn ar ddiwedd yr oedfa.

Cofiwch am gyngerdd Al Lewis ar Fedi 12fed.




**Tŷ Croeso**



Dyma arddangosfa Tŷ Croeso ar gyfer y Gwasanaeth Dinesig Cymunedol. Mae'n cyfleu trawsdoriad o'r holl weithgareddau a wneir yn y capel yn ogystal â'r gwaith dyngarol i helpu Plant Dewi, lloches y Gwragedd, Banc Bwyd Hendygwyn ac Eglwys Crist Caerfyrddin, y di-gartref (siec o £350) a Caffi Cofio Talacharn.

Mae'r Savoy yn cynnal Cwis Elusennol bob mis a mae'r enillwyr yn cael cadw hanner yr enillion a'r hanner arall yn mynd i ba elusen bynnag a gafodd ei henwebu y mis blaenorol. Enwebwyd Tŷ Croeso gan y Sanclêr Men's Shed ac fe dderbyniodd Tŷ Croeso £100 ar ddiwedd y noson gwis ym mis Gorffennaf. Diolch iddynt am yr enwebiad.




## SAN CLER

Trist clywed am farwolaeth Winford Phillips, Heol Dinbych y Pysgod a hynny ond ychydig wythnosau ar ôl colli ei wraig, Anne. Cydymdeimlwn â'i fab, Andrew, a'r teulu ar eu colled heb anghofio y brodyr a chwiorydd yn yr ardal a'u teuluoedd, yn enwedig Wyndham, County Stores, ei efaill.

Cydymdeimlwn hefyd â theulu Beryl Davies, gynt o Rhiw'r Orsaf, a fu farw ar Fehefin 20fed. Bu hi'n gweithio yng Nghartref Dolyfelin am sawl blwyddyn. Cofiwn am ei phlant Carol a Bernard a'r teulu oll yn eu galar.

Cydymdeimlwn â Jackie a Dorian Davies, Backe ar farwolaeth mam Jackie, sef Evelyn Evans o Gaerfyrddin ond a fu farw yng Nghartref Garreg Lwyd.

Rosemarie Davies
Cyfrifydd Technegol
GWASANAETH CADW CYFRIFON
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
*Yn drwyddedig gan Association of Accounting Technicians*

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

**Sancler Shed**

Mae aelodau Sanclêr Shed yn gasgliad o ddynion dawnus dros ben. A does dim yn well ganddynt na defnyddio eu sgiliau er mwyn gwneud cyfraniad yn y gymuned.

Tro pentref Bancyfelin oedd hi yn ddiweddar. Roedd dau planter blodau yno, oedd wedi gweld dyddiau gwell. Fe grëodd y dynion ddau blanter gwerth eu gweld a diolch i aelodau o'r gymuned am roi pridd a blodau er mwyn cwblhau'r cyfan.

Diolch o galon i Sanclêr Shed am ddefnyddio'u sgiliau er lles y gymuned unwaith eto. Fe werthfawrogir eu gwaith yn fawr iawn.



## *Dathlu Priodas Berl*



Llongyfarchiadau i Rhys ac Angharad Huws o Sanclêr a fydd yn dathlu 30 mlynedd o fywyd priodasol ar Orffennaf y 29ain. Penblwydd Priodas Berl Hapus i'r ddau. Cariad mawr oddi wrth 'Teulu'r De' a 'Theulu'r Gogledd.'

# BANCYFELIN



P'nawn Sadwrn, 14eg Mehefin aeth deg ar hugain o aelodau o Ofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin ar daith gerdded ym Mrechfa. Ciliodd y glaw a mwynhawyd y daith yn fawr iawn. Cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a chacen yn y Forest Arms cyn mynd adref. Bu trefniadau'r dydd yng ngofal aelodau Capel Bancyfelin a chafwyd prynhawn ardderchog.

**Oedfa Chwiorydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin**



Cynhaliwyd Oedfa Chwiorydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin yng Nghana nos Fercher, 18fed Mehefin. Roedd nifer o ferched yr eglwys yn cymeryd rhan yn yr oedfa, a mwynhawyd paned yn y festri cyn i bawb fynd adref. Yn ystod yr oedfa trosglwyddwyd y Llywyddiaeth i'r Parchg Beti Wyn James. Diolch i Marian Thomas, San Cler am ei Llywyddiaeth yn ystod y flwyddyn aeth heibio.

**Capeli Cana a Bancyfelin**

Cafwyd diwrnod ardderchog ar Bererindod yr Ofalaeth eleni ar ddydd Sul, 22ain Mehefin. Teithiodd llond bws i'r gorllewin gan alw yn gyntaf yn y Ganolfan Ceffylau Gwedd yn Eglwyswrw a derbyn croeso mawr gan y teulu. Wedi cinio yn yr haul braf, ym-

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
Gerald@GeraldBlainAssociates.co.uk
GeraldBlainAssociates.com
@GBAssociates1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

laen at Gapel Ebeneser Dyfed lle roedd criw ffyddlon o addolwyr o dan arweiniad Y Parchg Sian Elin Thomas yn ein disgwyl. Braint oedd ymuno yn yr oedfa arbennig hon a chael cyfle i gymdeithasu dros baned wedi'r oedfa, a chyfle i ymweld â thir Eisteddfod y Garreg Las 2026 dan arweiniad John (Cwmbetws)Davies. Wedi taith fendigedig dros y Preseli mwynhawyd swper blasus yn y Roadhouse, Hendy-gwyn. Diwrnod hyfryd. Diolch i bawb a ddaeth a diolch arbennig i'n gyrrwr, Elfed Lewis am ein gyrru'n ofalus ar hyd ambell hewl digon cul!




Pererindod yr ofalaeth

**Gibeon**
Mynychodd rhai o'r gwragedd oedfa Chwiorydd Gorllewin Caerfyrddin a gynhaliwyd yng Nghapel Cana ar Fehefin 18fed. Diolch i Iona am wneud y darlleniad ar ran Gibeon.

Y Parch. Catrin Ann Thomas fu'n gwasanaethu ar fore Sul, Mehefin 22ain a chafwyd oedfa fendithiol yn ei chwmni. Coed oedd ei thestun a chlywyd am hanesion diddorol yn son am goed yn y Beibl. Gweinyddwyd y Cymun ganddi hefyd. Hilary oedd yn cyfeilio a mwynhawyd paned wedi'r oedfa.

**Henoed Bancyfelin**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Mehefin o Henoed Bancyfelin yn y Fox and Hounds a diolch iddynt am y croeso arferol.

Y siaradwraig gwadd oedd Heddyr Gregory, sef Swyddog y Wasg a'r Cyfryngau ar gyfer Shelter Cymru. Cafwyd prynhawn diddorol dros ben pan fu Heddyr yn egluro beth yw gwaith Shelter Cymru.

Pwysleisiodd bod Shelter Cymru yn fudiad gwbl ar wahan i Shelter sydd yn bodoli yn Lloegr. Amlinellodd pa mor ddybryd yw'r sefyllfa ar hyn o bryd gyda cymaint o deuluoedd yn byw mewn llety dros dro.

Anodd amgyffred pa mor anodd ydyw byw felly heb fodd i goginio; heb le priodol i blant wneud eu gwaith cartref a gorfod rhannu ystafell ymolchi gyda nifer o deuluoedd eraill.

Mae yna angen mawr am dai cymdeithasol fel bod teuluoedd yn medru ffwrddio rentio neu prynu eu cartrefi ei hunain. Er bod addewid gan Lywodraeth Cymru i adeiladu nifer o dai cymdeithasol, nid yw hynny wedi'i gyflawni hyd yn hyn. Felly, rhan bwysig o waith Shelter Cymru yw lobïo i newid y gyfundrefn.



Yn y llun gwelir Mai Thomas, Ysgrifennydd Henoed Bancyfelin, Heddyr Gregory ac Annalyn Davies, Cadeirydd.

Trefnir trip i Gerddi Aberglasney ym mis Gorffennaf ac yna fe fydd toriad tan mis Medi.

## LOGIN

**Calfaria**
Oedfaon
Diolch o galon i'r Parchedigion Gareth Ioan a Peter Thomas am eu gwasanaeth yn ddiweddar, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-
Medi:
7fed: Donna George - Cymun 10.30
21ain: Natalie Morgan - Cwrdd 10.30

**Taith Gerdded**
Cynhelir taith gerdded noddedig blynyddol Cymdeithas Capeli Bro Hywel Dda ar fore Sadwrn, Medi 20fed - dechrau o Gapel Cefnypant am 10 o'r gloch.
Edrychwn ymlaen i gael cwmni gymaint a phosib o'n

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL
Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dwr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

haelodau er mwyn cefnogi elusennau Motor Neurone, Meddygfa Rhiannon Arberth ac Unedau Chemotherapi Ysbytai Llwynhelyg a Glangwili.

**Dydd Agored Glyn Nest**

Cynhelir dydd agored Cartref Glyn Nest ar brynhawn Mercher, Awst 27ain am 2 o'r gloch. Dewch i gefnogi os gwelwch yn dda.

**Eisteddfod yr Urdd**



Llongyfarchiadau enfawr i Gruffudd Llewelyn Rooke, Waunfach, Login am gipio'r wobr gyntaf yn yr Unawd blwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod yr Urdd Dur a Môr.

## Canolfan Ffynnonwen

Cynhaliwyd cyfarfod nos Wener, 4ydd Gorffennaf i wneud y trefniadau terfynol i'r Ffair Hâf a gynhelir ar 19eg Gorffennaf am 1 o'r gloch.

Dilynwyd y cyfarfod gyda noson gymdeithasol lwyddiannus o ddod a rhannu swper.

Cynhelir noson gwis, dan ofal Ray a Lynn Burnell ar y 9fed o Awst.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf nos Fawrth, Medi 23ain.

Dymuniadau gorau i Margaret Williams, Coedllys (Cilowen gynt), ar achlysur ei phenblwydd yn 90 oed. Diolch am y gefnogaeth dros y blynddoedd i'r ganolfan a gobeithio yn wir y byddwch yn medru mwynhau yr achlysur.

## Cylch Meithrin Ffynnonwen





Diolch i 'Animal Cwtch' am ddod â gwahanol anifeiliaid anwes i'r plant gael eu gweld. Redd pawb wedi mwynhau mas draw.

**Symud Ysgol**



Pob lwc Lili sydd yn mynd i Ysgol Bryn-conin tymor nesaf.

# CWM MILES

Diolch i Shân Jones am ei gwasanaeth ym mis Mehefin.
Medi 14eg Cymun 2 o'r gloch - Dafydd Evans.

# RHYDYCEISIAID

Diolch i'r brodyr Jac a Josh Lewis am dorri'r porfa ac am gadw'r fynwent yn daclus.

Diolch i Wyn a Meirwen Evans am y gwaith arbennig o fod yn osodwyr y Cardi Bach am flynyddoedd. Dymunwn iechyd da ac hapusrwydd i chi'ch dau.










# TAFARNSPEIT

## Ken Davies (1936–2025)



Gyda thristwch mawr yr ydym yn cyhoeddi marwolaeth Ken Davies, o Dafarnspeit yn 89 oed. Ganwyd Ken yn Eastgate, Llanboidy ym 1936. Yn 1959, priododd Ken â Mary, gan ymgartrefi yn Tafarnspeit. Cawsant 65 mlynedd o fywyd priodasol hyfryd. Llynedd roeddent yn falch o dderbyn cerdyn llongyfarch gan Ei Fawrhydi y Brenin i nodi y garreg filltir arbennig hon.

Roedd Ken yn ffigwr adnabyddus ac annwyl iawn yng nghymuned Tafarnspeit, gan chwarae rhan blaenllaw ym mywyd lleol. Roedd yn aelod ymroddedig o bwyllgor y 'Pentref yn ei Blodau' yn ystod y 1970au ac, ochr yn ochr â Mary mwynhaodd flynyddoedd lawer fel chwaraewr ymroddedig yn nhîm Bowlio Dan Do Tafarnspeit.

Bydd Ken yn cael ei gofio am ei natur hael, bob amser yn barod i roi help llaw a helpu eraill. Roedd hefyd yn cael ei edmygu am ei gryfder a'i benderfyniad aruthrol, rhinweddau a enillodd gydnabyddiaeth iddo fel aelod balch o dîm Tynnu Rhaff enwog Llanboidy. Gan gynrychioli Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, teithiodd Ken i wledydd gan gynnwys Iwerddon, yr Iseldiroedd, Sweden a De Affrica. Daeth uchafbwynt ei daith chwaraeon ym 1977, pan gyrhaeddodd ei dîm statws Pencampwr y Byd yn Jersey.

Mae Ken yn gadael gwaddol o garedigrwydd, ysbryd cymunedol a chryfder tawel ar ei ôl. Bydd ei deulu a phawb a'i adnabu yn ei golli'n fawr.

Cyfraniadau

| | |
|---|---|
| Teulu y diweddar Eirlys Davies, Hendygwyn | £25 |
| Gwynlais a Mary Phillips, Merlais | £10 |

*Diolch yn fawr*

# LLANGLYDWEN

**Penblwydd hapus** iawn i'n brawd bach, Ryan Phillips, Trehir Uchaf, Cefnypant a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 60 oed ar Gorffennaf 30ain. Dymuniadau gorau wrth Dianne, Kaye, Sandra, Lynnette a Barry. Joia'r dathlu.

# HENDYGWYN AR DAF

**Tabernacl**

Ar brynhawn Sul, Mehefin 29ain yn y Tabernacl, bu oedfa i ffarwelio a diolch i'r Parchedig Guto Llywelyn sydd wedi derbyn galwad i fod yn weinidog yng Nghwm Gwendraeth. Fel arwydd o'n gwerthfawrogiad am ei wasanaeth gyda ni dros y deuddeg mlynedd diwethaf, cyflwynwyd tysteb iddo gan ddiacon hynaf y Tabernacl sef Mr. Mel Jenkins.



Pawb fu'n cymryd rhan yn y gwasanaeth

Yn dilyn yr oedfa, cafwyd gyfle i gymdeithasu ar y festri gyda phaned a lluniaeth bendigedig.

Dymunwn yn dda i Guto, Catrin a'r teulu oll yn ei ofalaeth newydd ac i'r dyfodol.

Ar y 6ed o Orffennaf, croesawyd Dr Ryland Jones i'r pulpud. Meddyg teulu yn Llandysul yw Dr Jones a braf oedd croesawu ei wraig i'r oedfa hefyd. Diolch iddo am ei neges.

Trefn Oedfaon y Tabernacl
27.7.25: Oedfa Gymun dan ofal Mr Nigel Davies – 2.00yp
17.8.25: Oedfa dan ofal Mrs Elonwy Phillips – 10.30yb
31.8.25: Oedfa yng ngofal Mr Alun Lenny – 10.30yb
7.9.25: Oedfa Gymun dan ofal Parchg Huw George - Tabernacl yn uno gyda Trinity am 10.00yb neu Bethel am 11.15yb.
14.9.25: Oedfa dan ofal Dr Ryland Jones – 10.30yb
21.9.25: Oedfa Gymun dan ofal Ffred Ffransis – 10.00yb
*Croeso cynnes i bawb.*

AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg
i blant ac oedolion,
hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau
Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon
clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau
cyffredinol sy'n gysylltiedig â
chwaraeon a gwaith

**Wythnos Hendygwyn**

Fel rhan o Wythnos Hendygwyn eleni, cynhelir noson Gymreig yng nghwmni aelodau o'r grŵp Perlau Tâf ar nos Lun, Gorffennaf 28ain am 7.00 yh yng Nghapel y Tabernacl. Pris mynediad yw £5. Gweler y poster a chofiwch y dyddiad!




Dymuniadau gorau i Mrs. Mair Bartlett sydd eisoes wedi ymgartrefu nôl yn Nhrefychan, Hendygwyn.

## *Priodas Dda*



Llongyfarchiadau i Noel a Laura Thomas, Gerddi Lingfield, Hendygwyn ar eu priodas yn ddiweddar yn Halkidiki, Groeg.

## Cylch Meithrin Hywel Dda



Cynhaliwyd ras tractor i blant yn Hendygwyn ar Orffennaf 5ed i godi arian ar gyfer y Cylch. Diolch diffuant i Gigyddion London House am eu rhodd caredig o roliau porc ar gyfer y digwyddiad.

Diolch yn fawr i noddwyr y diwrnod, sef Fferyllfa Clunderwen a Plymio a Gwresogi Seeley.

Diolch i'r busnesau canlynol am eu rhoddion caredig: Castell Howell, Riverlea Hendygwyn, The Yellow Honesty Box, Calm Organic Beauty, Fishers Hotel, Whitland Junior Borderers a Tallis Amos Arberth.

Diolch i'r pwyllgor, staff, plant a'u teuluoedd am eu cefnogaeth anhygoel.

**Dathlu adeilad Ysgol Llys Hywel yn 150 oed**



Gwnaeth Ysgol Llys Hywel ddathlu adeilad yr ysgol yn 150 mlwydd oed ar Orffennaf 9fed. Ymunon ni yn y dathliadau drwy wisgo dillad Fictorianaidd a chwarae gemau iard o'r cyfnod hwn.

**Gwibdaith i'r Ardd Fotaneg**

Teithiodd plant o'r Cylch a'i rhieni i'r Ardd Fotaneg ar gyfer Gŵyl Dewin a Doti ar Fehefin 18fed. Roedd y tywydd yn hyfryd a chawsant ddiwrnod gwych! Diolch i Bysiau Cwm Taf am ein cludo.

LLAWN CARIAD
**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**
Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk

Siop Siân
01239 831230
Llyfrau Cymraeg, Cardiau Cyfarch, Anrhegion Cymraeg a mwy yn gwasanaethu Sir Benfro
London House, Crymych
SA41 3QE

Bwyd Byd Byd
- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com



Yn yr Ardd Ftaneg

**Enillwyr Clwb 200**

Mis Mehefin
1af- rhif 8 -Melisa Rees
2il-rhif 36 - Hedydd Thomas
3ydd- rhif 104 - Ceirios & Ed John

Mis Gorffennaf:
1af- rhif 79 - Carl Morris
2il- rhif 101 - Ffion Moseley
3ydd- rhif 75 - Andy Seeley

## Gair o ddiolch er cof am Lynette James



Dymuna Claude, Gordon, Gwyn, Geraint a'u teuluoedd ddiolch i bawb am y llu o gardiau, galwadau ffôn ac hefyd i gymdogion a phob un a alwodd i gydymdeimlo a hwy ac i bawb oedd yn bresennol yn yr angladd.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr angladd sef Mel Jenkins am yrru Claude a Gwyn, yr archgludwyr, gofalwyr parcio, gofalwyr yr eglwys, David Richards am ddarllen y deyrnged a Celia Rees, yr organyddes.

Diolch i'r offeiriaid, y Parch. Justin Arnott am gymrid y gwasanaeth yn yr eglwys ac ar lan y bedd yn Salem. Hefyd i'r Parch. Adam Bruce am ei gyfraniad yn yr eglwys.

Hoffen hefyd ddiolch I'r doctoriaid a'r nyrsys yn Ward Padarn am eu gofal tyner ac hefyd i Feddygfa Coach and Horses, San Cler am ei gofal yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Diolch i Stuart Booth, o Peter Evans, Trefnwyr Angladdau am ei waith gofalus ac urddasol ar y diwrnod ac i'r Carpenters Arms am y lluniaeth wedi'r angladd.

Diolch i bawb am bob peth, mi fyddwn yn gweld eisiau Lynette yn fawr iawn. *Claude a'r teulu.*

## Diolch

Hoffai deulu'r diweddar Eirlys Davies, Rhodfa Dewi Sant, Hen Dŷ Gwyn ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu cydymdeimlad a'u caredigrwydd yn dilyn eu colled yn ddiweddar. Hoffent hefyd ddiolch yn arbennig i Eunice, Michelle a Lynette am eu gofal dros a'u cyfeillgarwch i Eirlys, dros flynyddoedd lawer.

Maent am gyfleu'u diolch diffuant i'r Parchedig Huw George am arwain gwasanaeth yr angladd, gyda chymorth y Parchedig Kingsley Taylor a'r Tad Danny McDonald. Diolch hefyd i Ken Davies a'i Feibion, y trefnwyr angladdau am eu harweiniad a'u proffesiynoldeb.

Dymunant ddiolch o waelod calon am gefnogaeth a gofal tyner staff Meddygfa Taf, ynghyd â staff Fferyllfa Clunderwen a staff Ward Preseli, Ysbyty Glangwili, a fu mor dda i Eirlys drwy gydol ei hafiechyd.

Yn olaf, mae'r teulu yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau hael er cof am Eirlys yn fawr iawn. Casglwyd y swm parchus o £800 tuag at Feddygfa Taf. Diolch i bawb.

## Côr Meibion Hendygwyn a'r Cylch

Talent lleol yn disgleirio yng nghyngerdd Capel Pisga


Am noson o gerddoriaeth ysblennydd a gynhaliwyd yng Nghapel Pisga, Llandysilio, nos Wener, 27ain o Fehefin. Roedd y lleoliad yn llawn cyffro wrth i berfformwyr lleol o bob oed gymryd y llwyfan.


Swynodd sêr ieuengaf y noson, Peggy Ann a Poppy Hammersley, y gynulleidfa gyda'u perfformiadau piano hyderus, gan brofi nad oes terfynau oedran ar dalent.

Dilynodd Jencyn a Lefi gyda chymysgedd hyfryd o acordion piano a chlarinét, gan arddangos eu hyblygrwydd wrth iddynt symud yn ddi-dor rhwng perfformiadau unigol a deuawdau. Roedd eu cemeg gerddorol a'u hiwmor naturiol wedi gwneud i'r gynulleidfa gael eu cyffwrdd a'u chwerthin drwy gydol eu set.

Roedd yn anrhydedd i Gôr Meibion Hendygwyn rannu'r llwyfan gyda thalent lleol mor nodedig.







Uchafbwynt penodol oedd ein aelod ieuengaf, Harry Davies, a roddodd berfformiad unigol o'r gân Gymreig "Paid a Deud." Dangosodd ei lais hyderus a'i berfformiad emosiynol ddyfodol disglair canu Cymraeg yn ein cymuned.

"Mae gweld y cerddorion ifanc hyn yn perfformio gyda chymaint o angerdd a sgil yn ein hatgoffa pam mae digwyddiadau cerddoriaeth gymunedol mor hanfodol," meddai Roy Morris. "Roedd perfformiad Harry yn arbennig o gyffrous - rydym yn hynod ffodus i gael lleisiau ifanc mor dalentog yn ein côr." Noson i'w gofio.

# EFAILWEN




Llongyfarchiadau i Llew John ar gael ei ddewis i gynrychioli'r Urdd gyda 3 arall o Gymru ar daith i Florida am wythnos ym mis Mehefin. Pwrpas y daith oedd mynychu Prifysgol Florida ar gwrs newyddiadurieth gyda disgyblion eraill o ysgolion America.

**Cydymdeimlo:** Gyda thristwch cawsom wybod fod Dawn Davies, Aron Aur, Glandy Cross wedi'n gadael ddiwedd mis Mehefin yn dilyn cystudd blin. Cydymdeimlwn â'i gweddw Richard, Jason ei mab, yr wyrion Kacey, Kiran a Kai a'i mam Mrs Dorothy Williams, a'i chwiorydd Delyth a Davina.

## Eisteddfod y Garreg Las – Pwyllgor Efailwen Login, Llanglydwen, Hebron a Cwm Meils

Cynhaliwyd noson Bingo er budd Eisteddfod y Garreg Lâs 2026 gan Bwyllgor Apêl Efailwen, Login, Llanglydwen, Hebron a Cwm Meils yng Nghaffi Beca ddiwedd Ebrill. Roedd y noson yn llwyddiant ysgubol a codwyd £750 i gychwyn yr apêl.

Bydd noson Helfa Drysor mewn ceir ar nos Fawrth Gorffennaf 15fed, yn cychwyn ac yn gorffen ym Mar Beca, Rhosfach rhwng 5.00 a 7.00.

Bu cyfarfod diweddaraf y pwyllgor apêl yng Nghaffi Beca ar nos Fawrth, 8fed o Orffennaf. Diolch i Rob a Delyth am gael defnyddio'r caffi i gynnal y cyfarfod. Mae'r pwyllgor yn prysur gweithio i gyrraedd eu targed o £7,000 gyda dros 60% wedi ei godi yn barod!

Mae nifer o ffyrdd i gefnogi ein hapêl, gyda thocynnau raffl mawreddog yr Eisteddfod nawr ar werth - cadwch lygad mas amdanynt am gyfle i ennill car gan BV Rees.

Bydd cyfarfod nesa'r pwyllgor yng Nghaffi Beca ar nos Fercher, 20fed o Awst am 6.30.

## Dathlu'r Aur!



Penblwydd Priodas Aur hapus i Gordon ac Eiryth Eynon, Plas y Bedw, Efailwen. Byddant yn dathlu 50 mlynedd o briodas ar 16eg o Awst. Llongyfarchiadau enfawr i'r ddau wrth y teulu a ffrindiau i gyd.

# TRELECH

Diolch yn fawr iawn i bawb a wnaeth gefnogi mabolgampau'r pentref a gynhaliwyd ar ddechrau'r mis. Diolch yn arbennig i Emma James (Clun gynt) am fod yn llywydd y noson ac am ei rhodd anrhydeddus iawn. Diolch hefyd i'r beirniaid sef Mrs Elin Davies, Mrs Michelle Evans a Mrs Buddug Rees, a'r dechreuwyr sef Mrs Michelle Llywelyn a Mr Mathew Goodman. Diolch enfawr hefyd i bennaeth a staff Ysgol Hafodwenog am gael defnyddio'r cae, parcio a'r toiledau. Diolch hefyd i Eleri (Beca) am ddod eleni eto â'r BBQ. Yn wir, diolch am waith yr holl wirfoddolwyr a wnaeth y noson yn llwyddiant. I gynnal noson lwyddiannus mae gymaint o waith sy'n cael ei wneud tu ôl y llenni.

Pob dymuniad da i Rosalind Whittal Williams sydd yn dathlu penblwydd arbennig ar ddechrau mis Awst.

THE FLORAL GOAT
blodau naturiol tymhorol hardd
Karen MacKechnie
Crug y Deri
Llandysilio
SA66 7JJ
07774 715059
karen@floralgoat.co.uk

*Yn tyfu wrth ochr yr Afon Conin*
*Ewyn rhydd flodeugerdd ffarwel*

MASNACHWYR ADEILADU
"Gwasanaethu ein cymuned ers 30 mlynedd"
LLANBOIDY 01994 448435
ARBERTH 01834 861118
dpbuildingsupplies.co.uk

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol

Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

# LLANDYSILIO

**Cyngerdd yng Nghapel Pisga**

Ar 27ain Mehefin cynhaliwyd cyngerdd bendigedig yng nghapel Pisga Llandysilio i godi arian i Neuadd a Maes Chwarae'r pentref. Mae yswiriant y lleoliad yn codi pob blwyddyn ac mae rhaid talu costau rheolau iechyd a diogelwch a diogelu plant felly diolch i bawb wnaeth ein cefnogi.

Diolchwn yn fawr iawn i'r ffyddloniaid, sef Côr Meibion Hendy-gwyn a'r Cylch dan arweiniaid Hefina Jones a'r cyfeilyddion Owain Lewis a Heather Jenkins sydd o hyd mor barod i'n cefnogi.

Gwnaeth y ddwy chwaer Peggy-Anne a Poppy Hammersley roi datganiadau ar y piano o safon uchel iawn. Un ym mlwyddyn 8 Ysgol y Preseli a'r llall ym mlwyddyn 6 Ysgol Brynconin.

Cawsom hefyd gwmni Jencyn a Lefi, dau fachgen ifanc a thalent anhygoel yn chwarae amrywiaeth o offerynnau. Un ar y ffordd i Brifysgol Southhampton a'r llall yn barod yn astudio yng Nghaergrawnt. Mae'r ddau yn aelodau o'r band Dewin, wedi ymddangos yng Ngwyliau Fel Na Mai a Tafwyl ac wedi cyhoeddi dwy gân sengl a bwriad i recordio albwm cyn hir.

Roedd y noson yn gyferbyniad gwych o bobl ifanc, rhai yn hŷn a rhai hyd yn oed yn henach ac roedd amrywiaeth y gyngerdd yn wych. Noson wych ac mae ein diolch i bob un ohonynt.







Jencyn a Lefi



Peggy-Anne a Poppy

**Cronfa Llandysilio a Clunderwen ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las**

Ar nos Wener, 27ain Mehefin, ar ddechrau cyngerdd yng Nghapel Pisga, Llandysilio, trosglwyddwyd dwy siec i aelodau pwyllgor lleol Eisteddfod y Garreg Las.



Yn y llun mae Haulwen Pridmore yn derbyn siec am £352 oddi wrth Dewi John, Cadeirydd Cyngor Cymuned Clunderwen a Faith Wright yn derbyn siec £500 oddi wrth Adrian Llewellyn, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandysilio. Mae pawb yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth hon sydd wedi rhoi hwb dda i'r casgliad. Dyma hanner cyfraniadau'r ddau Gyngor ac fe dderbynnir y gweddill yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.


D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

arwyddion
EagleSigns
Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
Uned 3/4, Parc Tir Owen, San Cler. SA33 4BY

DAIL PREN
Crefftwaith pren, arwyddion a gwaith ysgythru laser
Tomos Lewis
dailpren.co.uk | dailpren@hotmail.com

**Penblwyddi**

Penblwydd Hapus iawn i Denzil Davies o Llandysilio a oedd yn 70 oed ar Fai 26ain. Hoffai Denzil ddiolch yn fawr i bawb am yr holl gardiau, negeseuon ac anrhegion dderbyniodd.

....hefyd i'w Fab Steffan, sydd nawr yn byw yn America. Roedd Steffan yn 40 oed ar ddechrau mis Mehefin.

....hefyd i Chris Llewellyn o Heol y Llan, Llandysilio a oedd yn 60 oed ar 7fed o Orffennaf.

....hefyd i Sioned Jones, merch Diane a Mark Jones, Tŷ Gwyn, Llandysilio a oedd yn 40 oed ar Fehefin 3ydd. Mae Sioned yn byw yn China.

....hefyd i Sioned Jones o Drefach Felindre, merch Delyth a Michael Roblin, Glynty Farm, yn 30 oed ar 9fed o Awst.



Denzil Davies



Chris Llewellyn

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Katie Atherton a Kiran Doyle ar enedigaeth merch fach. Wyres i Ian a Linda Atherton, gor wyres i Annette Llewellyn, a nith fach i Ryan.

.....hefyd llongyfarchiadau i Jack Fussell a Jenna, ar enedigaeth merch fach. Wyres i Tina a Richard Fussell, a gor wyres i Ann a George Youngman.

**Cydymdeimlo**

Hoffwn gydymdeimlo gyda Dorothy, gynt o Tŷ Capel, Llandysilio a'r teulu, ar farwolaeth ei merch Dawn o Glandy Cross.

...hefyd cydymdeimlwn gyda'r teulu ar farwolaeth Mickey Fussell. Tad, tad yng-ngyfraith, dadcu a hen ddatcu, meddwl amdanoch.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Simon Hammersley ar ddod yn 3ydd yn ACU 250 Pencampwriaeth Prydain

....hefyd i Angharad James capten tîm peldroed Cymru ar fynd ymlaen i'r Ewros. Pob lwc iddynt.

# CLUNDERWEN

**Graddio**



Llongyfarchiadau mawr I Elin John ar dderbyn gradd BA 2:1 mewn Addysg Blynyddoedd Cynnar a Gofal, o Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant.



Llongyfarchiadau mawr I Katie Jenkins ar dderbyn gradd BA Anrh. mewn Addysg Blynyddoedd Cynnar a Gofal, o Brifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant.

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282

DERI PAGE
CIGYDD
Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
Diolch am eich cefnogaeth

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
Anrhegion Cyfoes Cymraeg
Llyfrau Cymraeg
CD's
Cardiau Cyfarch
a llawer mwy
Ffôn: 01267 235044

**Sefydliad y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Nôl ym mis Mai aeth y gwragedd i ymweld â gardd Llwyngarreg, yn Llanfallteg. Cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol gan Paul a Liz, sydd yn agor ei gardd i'r cyhoedd fel rhan o'r cynllun Gardd Fotanegol. Maent eisioes wedi codi £46,000 ac maent yn gobeithio cyrraedd £50,000 tuag at elusennau nyrsio.

Mis diwethaf cafwyd siaradwr am goffi. Bu'n siarad am ei bywyd a sut ddaeth i ddechrau ei busnes coffi.

Nos Lun, 7fed o Orffennaf, cynhaliwyd helfa drysor cerdded yn Hendygwyn, gyda phryd o fwyd yn dilyn yn nhafarn Station House. Enillwyr helfa drysor blwyddyn diweddaf oedd yn trefnu, a bydd enillwyr eleni yn trefnu flwyddyn nesaf.

Ar Orffennaf 3ydd aeth rhai o'r gwragedd ar ymweliad ag Aberhonddu a drefnwyd gan mudiad y sir.

Ni fydd cyfarfod eto hyd y dydd Llun cyntaf o fis Medi.

**Dyddiau i'w cofio**

Sêl Cist Car, dydd Sul, 3ydd o Awst. Elw at Eisteddfod y Garreg Las.

Sioe Clunderwen, dydd Sadwrn 30ain o Awst. Mae'r rhaglen ar gael i'w lawr lwytho.




# CWMFELIN MYNACH

Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Gorffennaf 6ed dan ofal Mrs Shân Jones ac ar y Sul canlynol cafwyd gwasanaeth dan ofal y Parch. Huw George a oedd wedi paratoi oedfa ar waith Nansi Evans.

Bu aelodau o'r teulu ac aelodau'r capel yn darllen cerddi ac emynau o'i gwaith a chafwyd neges bwrpasol gan y Parch. Huw George. Braf oedd croesawu Nansi i'r oedfa. Yr organyddes oedd Sioned Snelson. Diolch i'r merched fu'n paratoi dished ar y festri yn dilyn yr oedfa. Oedfa arbennig i aelod arbennig.

**Trefn oedfaon mis Medi**

7fed: Oedfa gymun dan ofal Tudur Dylan - 10.30
14eg: Oedfa dan ofal y Parch. Huw George - 10.30
28ain: Rihyrsal y Gymanfa Ganu yn Pisga - 10.30

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Michael a Jim Davies, Roy Reynolds a Llinos Thomas ar farwolaeth brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr, sef Ken Davies o Tavernspite (Eastgate, Llanboidy gynt).
....hefyd â Caroline James, a'r teulu, Blaendyffryn ar farwolaeth ei modryb.

**Dyweddio**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Dyfed Lewis, Trefyw a Lee-Anne Thomas o Grymych ar ei dyweddiad.


**Llongyfarchiadau** mawr i Wyn a Meirwen, Y Felin a fydd yn dathlu eu Priodas Aur ar Awst 16eg. *BWJ*

**Diolch**
Dymuna Nansi Evans ddiolch i bawb a brynodd llyfr o farddoniaeth o'i gwaith er budd Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 2026. Mae swm anrhydeddus o £650 wedi ei godi i'r Eisteddfod. Diolch o galon i chi gyd.


**Penblwydd hapus**



Penblwydd hapus mawr ar Orffennaf 31ain i'n merch anhygoel Buddug.
50 oed a gwych!
Dad, Mam Angharad a Barry.





Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BECA

Mae Ysgol Beca wedi cael tymor andros o brysur. Fe ynwelodd blynyddoedd 5 a 6 â Gwersyll Yr Urdd Llangrannog ac fe gafwyd amser anhygoel! Cymerodd yr ysgol gyfan rhan yn Jambori Yr Urdd i ddathlu menywod Cymru yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Yr Ewros. Mae'r ysgol i gyd wedi bod yn lwcus tu hwnt i gydweithio gydag Elizabeth Haines, artist lleol, fel rhan o brosiect celf yn dathlu ein hardal leol! Yn ystod mis Mehefin fe gynhaliwyd ein mabolgampau a Ffair Haf, roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn! Hoffwn ddiolch i'r rhieni a'r gymuned am ein cefnogi.



Bl. 5 a 6 yn Llangrannog



Prosiect Celf gyda'r artist lleol Elizabeth Haines



Enillwyr mabolgampau'r ysgol

# YSGOL BANCYFELIN

**Trip Fy Mhlât Bwyd**

Diolch i fudiad CFfI Sir Gâr am drefnu digwyddiad 'Fy Mhlat Bwyd' er mwyn addysgu ieuenctid lleol am darddiad eu bwyd, ffermio a chefn gwlad. Cawsom lawer o hwyl yn gwneud gwahanol weithgareddau o ddysgu am gnydau pwysig i roi tro ar odro buwch!

**PROMS**



Da iawn i Seth Fenemore, Meilyr James a Merlin Fenemore a wnaeth gynrychioli Ysgol Bancyfelin yn y Proms Cynradd yn Theatr y Ffwrnes Llanelli. Llongyfarchiadau ar berfformiadau gwych o safon uchel. Diolch o galon i'r athrawon teithiol offerynnol am eu gwaith caled trwy gydol y flwyddyn.

**RNLI**

Diolch o galon i'r RNLI am ymweld â'r ysgol er mwyn rhannu gwybodaeth a ffeithiau pwysig gyda'r plant cyn gwyliau'r haf. Mwynhaodd y plant ddysgu am waith yr RNLI, cael cyfle i edrych ar y wisg a'r offer maent yn eu defnyddio a dysgu am reolau pwysig sydd angen eu dilyn pan yn ymweld â'r traeth.

**Criced yr Urdd**

Cynhaliwyd cystadleuaeth criced gyffrous gan yr Urdd ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ddiweddar, gyda thimau o ysgolion lleol yn cymryd rhan mewn diwrnod llawn egni, chwarae teg a chydweithio. Mwynhaodd y



disgyblion diwrnod y gystadleuaeth a chael y cyfle i feithrin hyder, gwella eu techneg a mwynhau'r profiad o gyd-weithio a chwarae fel tîm.

Diolch i drefnwyr yr Urdd, yr athrawon, a'r gwirfoddolwyr am wneud y diwrnod yn llwyddiant ysgubol!

**Sioe San Clêr**
Llongyfarchiadau i'r plant wnaeth gystadlu yn Sioe Amaethyddol CFfI Sanclêr yn enwedig y ddwy a ddaeth i'r brig ac ennill gwobrau yn y cystadlaethau celf a chrefft. Da iawn am yr ymdrech a'r ymroddiad.

**Sbectrwm**
Diolch i Sbectrwm am ddod i ymweld â disgyblion Ysgol Bancyfelin i drafod teimladau a pherthnasau iach ac afiach. Rhannwyd llawer o wybodaeth ddiddorol a pherthnasol yn ystod y sesiynau, gyda gweithgareddau amrywiol yn helpu i godi ymwybyddiaeth ymhlith y plant.

**Mabolgampau**



Ar ddiwrnod heulog braf cynhaliwyd Mabolgampau blynyddol Ysgol Bancyfelin. Roedd y disgyblion, rhieni a'r staff yn llawn cyffro wrth i'r plant gystadlu mewn amrywiaeth o rasys. Llongyfarchiadau i dîm y Llewod am ddod i'r brig ac i'r Dreigiau am eu hymdrech arbennig. Diolch arbennig i Mrs Davies a Millie am sgorio i ni ar y dydd.

Diolch o galon hefyd i'r Gymdeithas Rieni, Athrawon a Ffrindiau am gynnal y ras beli yn dilyn y mabolgampau, roedd yn ffordd wych o orffen diwrnod llawn hwyl ac egni. Codwyd swm anrhydeddus i goffrau'r Cyfeillion. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Jambori yr Urdd**
Am fore gwych! Cafwyd sesiwn Jambori hwylus a bywiog er mwyn dathlu tîm merched Cymru yn cyrraedd Pencampwriaeth yr Ewro yn y Swistir. Mwynhaodd y plant berfformio caneuon arbennig i ddathlu'r achlysur – gobeithio bydd y brwdfrydedd a'r canu gwych yn dod â bach o lwc i'r tîm!

# YSGOL BRYNCONIN

**Parti Môr Ladron**
Cafwyd hwyl ar brynhawn Mercher, 11eg o Fehefin wrth i Ddosbarth Diemwnt ddathlu gwaith y tymor a chynnal parti Môr Ladron. Roedd y plant a'r staff yn edrych yn wych a da iawn i'r plant am gynllunio'r parti, danfon gwahoddiadau a pharatoi y bwyd. Cafwyd amser braf ar long y Môr Ladron!



**Diwrnod Melyn**
Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r clefyd Cystic Fibrosis, penderfynodd Senedd yr Ysgol gynnal diwrnod melyn ar ddydd Iau, 12fed o Fehefin. Cafwyd cyfle yn ystod y dydd i ddysgu mwy am y clefyd.

**Mabolgampau'r Ysgol**
Braf oedd cael cynnal ein mabolgampau Ysgol ar ddydd Gwener, 13eg o Fehefin a bendigedig oedd cael cwmni rhieni a ffrindiau yr Ysgol. Da iawn i bob plentyn am gystadlu mor dda a llongyfarchiadau i Deri a Poppy am ennill y tlysau ac i dîm Robin am ennill y fwyaf o bwyntiau ar y diwrnod.

**Ffair Haf**
Diolch o waelod calon i Swyddogion y PTA am drefnu'r Ffair Haf ac i bawb oedd wedi cynorthwyo, cyfrannu a chefnogi mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y Ffair. Braf oedd gweld nifer o rieni a ffrindiau yr Ysgol yn cymdeithasu a mwynhau a diolch i chi gyd unwaith eto am eich cyfraniadau gwerthfawr. Codwyd swm arbennig o £800 a byddwn yn defnyddio'r arian ar gyfer talu bysiau ac adnoddau Ysgol.

**Gŵyl Hirddydd Haf – Blwyddyn 5**
Cafodd plant o Flwyddyn 5 amser arbennig ym Mhentre Ifan ar ddydd Mercher, 18fed o Fehefin wrth iddyn nhw gymryd rhan mewn gŵyl Hirddydd Haf. Cafwyd cyfle i ddawnsio a chanu, cerdded a dysgu am fyd natur a mwynhau storiau o gwmpas y tân. Diolch i Fenter Iaith Sir Benfro am drefnu y diwrnod a diolch i Miss Kim a Miss Sharon am deithio gyda'r plant.

**Ennill y Drydedd Faner Eco**

Llongyfarchiadau enfawr i Ysgol Brynconin am ennill y drydedd faner werdd am ddatblygu gwaith Eco. Llwyddiant a hanner yw derbyn y wobr ar 20fed o Fehefin.



**Cyngerdd Ffederasiwn**

Braf oedd cael dathlu doniau a thalentau plant Ffederasiwn Ysgol Brynconin ac Ysgol Maenclochog mewn cyngerdd arbennig ar nos Iau, 26ain o Fehefin yn Neuadd Clunderwen. Cafwyd noson arbennig a fydd yn aros yn ein côf am amser hir. Braf oedd gweld y neuadd yn llawn dop a diolch i'r 150 o blant oedd wedi dod i berfformio. Cyfle gwych i ddathlu doniau plant y Ffederasiwn a diolch i blant Blwyddyn 6 y ddwy Ysgol am arwain y noson. Uchafbwynt y noson oedd clywed y ddwy Ysgol yn morio canu – 'Hon yw Fy Fflam Fach i.'



**Murlun Angharad James**

Newyddion cyffrous – mae Cymdeithas Pêl Droed Merched Cymru wedi gofyn i'r Ysgol greu murlun o gyn ddisgybl Ysgol Brynconin a chapten Tîm Merched Cymru er mwyn dathlu'r ffaith bod y merched yn cystadlu yn yr Ewros eleni. Braf oedd cael croesawu yr artist Lloyd Graffiti i'r Ysgol ar Ddydd Gwener, 27ain o Fehefin i greu y murlun, gyda chriw o ferched Blwyddyn 6. Mae'r murlun gwerth ei weld ac rydym yn browd iawn o lwyddiant ein cyn ddisgybl – Angharad James. Cofiwch i rannu llun o'r murlun pan rydych yn ymweld â'r Ysgol.




**Ysgol Brynconin ar y teledu**

Braf oedd gweld Ysgol Brynconin ar raglen Newyddion ITV Wales ar nos Lun, 30ain o Fehefin. Diolch enfawr i deulu Makepeace am rannu gwybodaeth am y murlun arbennig ac am ddathlu llwyddiant a champ Angharad James. Cafwyd cyfle hefyd i ymddangos ar Heno a This Morning!

**Gala Nofio Ysgol Brynconin**

Da iawn i bawb a gymerodd ran yng nghystadleuaeth Gala Nofio Ysgol Brynconin ar fore Mercher, 2il o Orffennaf ym Mhwll Nofio Arberth. Diolch i'r aelodau staff am drefnu y weithgaredd arbennig hon, yn arbennig i Mrs S Richards am roi ei hamser i helpu ni gynnal y gystadleuaeth. Da iawn i bawb am gystadlu a llongyfarchiadau enfawr i Dŷ Bronfraith am ennill Tlws Mrs Enfys Howells am y tŷ a enillodd y fwyaf o bwyntiau.

**Gweithdy Celf Blwyddyn 6**

Braf oedd cael treulio'r diwrnod yng ngweithdy Tim Fudge ar ddydd Llun, 7fed o Orffennaf i greu murlun Blwyddyn 6. Mae'r murlun yn edrych yn wych ac rydym yn edrych ymlaen i gael arddangos ar wal yr Ysgol am byth.

# YSGOL LLYS HYWEL

**Dathlu 150 o flynyddoedd ers adeiladu'r ysgol gynradd!**

Mae wedi bod yn bleser gweld y disgyblion yn gwisgo ar gyfer gwahanol ddiwrnodau thema drwy gydol y flwyddyn, ond roedd y digwyddiad arbennig hwn yn fwy ystyrlon na'r arfer. I nodi pen-blwydd 150 mlynedd adeilad yr ysgol, a sefydlwyd yn 1875, gwnaeth y disgyblion a'r staff ymdrechu'n arbennig i wisgo mewn dillad Fictorianaidd, gan adlewyrchu'r cyfnod pan adeiladwyd yr ysgol.

Fel rhan o'r dathliad, archwiliodd y disgyblion sut oedd bywyd yn y cyfnod hwnnw, gan ddyfnhau eu dealltwriaeth o hanes drwy weithgareddau diddorol. Roedd y diwrnod yn cynnwys cinio picnic arbennig hefyd, gan ychwanegu at yr awyrgylch dathlu.

Trwy gydol y diwrnod, datblygodd y disgyblion amrywiaeth eang o sgiliau, gan gynnwys bod yn wybodus am eu diwylliant a'u cymuned. Mae'r profiadau hyn wedi helpu i feithrin chwilfrydedd, empathi a theimlad o berthyn i'w hardal leol.

Bydd dathliadau pen-blwydd 150 yn parhau i dymor yr hydref. Gobeithiwn gynnal diwrnod agored i'r cyn ddisgyblion, rhieni, staff a'r gymuned i weld sut mae adeilad yr ysgol wedi datblygu dros amser. Os oes gennych hen luniau neu atgofion sy'n gysylltiedig â'r ysgol, byddem wrth ein bodd yn eu cynnwys fel rhan o'n arddangosfeydd. Anfonwch nhw i admin@llyshywel.ysgolccc.cymru



Plant yn dathlu 150 oed yr ysgol



Staff yn dathlu 150 oed yr ysgol



Mwy o ddathlu

**Cwricwlwm**

Fel ysgol gyfan, rydym wedi dathlu ac ymwneud â llu o ddigwyddiadau ac arferion pwysig, gan gynnwys Wythnos Iechyd GIG, Wythnos Bwyta'n Iach, Diwrnod y Cefnforoedd, ymwybyddiaeth atal suddo a sgyrsiau diogelwch ar-lein a gyflwynwyd gan PC Cath. Roedd ein disgyblion hefyd yn cymryd rhan yn 'Fy Mhlat Bwyd' yn Maes y Sioe Sir Gar, perfformiad arbennig yn y Proms, ac fe gyfrannodd at ymdrechion codi arian trwy roi dillad wedi'u hailgylchu drwy raglen Bag2School.




Proms yn y Ffwrnes

Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl ymwelwyr a rannodd eu hamser, eu harbenigedd a'u brwdfrydedd gyda ni trwy sgyrsiau a gweithdai. Mae'ch cyfraniadau wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddysgu a thyfiant ein disgyblion yn ystod y flwyddyn.

**Chwaraeon**



Bu tymor arall llawn gweithgareddau chwaraeon yn Ysgol Llys Hywel. Mae'r disgyblion wedi cynrychioli'r ysgol gyda balchder ac wedi archwilio amrywiaeth eang o chwaraeon, gan gynnwys pêl-droed cymysg, rygbi, athletau a chriced. Daethant i ddiwedd y flwyddyn ar nodyn uchel gyda dathliad Gŵyl Chwaraeon gwych — am dalent anhygoel sydd gennym yn ein hysgol ni!

**Teithiau Allgyrsiol**

Yn ogystal â'n gweithgareddau arferol yn yr ysgol, mae'r disgyblion wedi cymryd rhan mewn bore coffi, lle cawsom gasgliad o £700 i gefnogi Uned Chemo yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli. Diolch i bawb ậ ddaeth! Hefyd, fe wnaeth diwrnodau pontio helpu disgyblion Blwyddyn 6 i baratoi gyda hyder ar gyfer eu cam nesaf mewn



addysg. Yn ogystal, rhoddodd teithiau haf i Hangar 5 a Sgiliau brofiadau ymarferol i'r disgyblion. Am dymor prysur!

Bore Coffi'r ysgol (*Chwith ac isod)*



# YSGOL HAFODWENOG

**Proms Iau Sir Gâr**

Llongyfarchiadau i Eres, Lilly a Sara am gymryd rhan yng nghyngerdd Proms Iau Sir Gâr yn ddiweddar. Cyngerdd i ddisgyblion y Sir yn Theatr y Ffwrnes yn Llanelli. Roedd y dair ohonynt yn chwarae'r ffidil yn y gerddorfa. Da iawn chi.

**Ioga gyda chwn bach**

Cafwyd sesiwn ioga i'r disgyblion gyda chwn bach. Diolch i Miss Emily am ddod mewn a'r cwn bach. Daeth rhaglen Newyddion Ni o S4C mewn cysylltiad er mwyn ffilmio sesiwn arall gyda'r cwn bach a bu rhai o'r disgyblion yn siarad ar y rhaglen hefyd. Diolch i dîm Newyddion Ni am y cyfle.

**Menter y Treftadaeth Gymreig**



Aethom ati eleni i gystadlu yng nghystadleuaeth Menter y Treftadaeth Gymreig wrth i ni astudio y thema Oes Fictoria yn nhymor y gwanwyn. Oherwydd ein ymwelwyr pwysig (Estyn) cyn gwyliau'r Pasg, buom yn ffodus iawn i wahodd y beirniad i'r ysgol ar ddechrau'r tymor yr haf. Yn ystod y diwrnod dathlwyd holl waith ac arddangoswyd amrywiaeth eang o dystiolaeth o'r sgiliau a profiadau a dderbyniodd y disgyblion yn ystod gwaith y tymor. Cafwyd perfformiad arbennig o'r ddawns clocsio Oes Fictoria yn ogystal a chân a gyfansoddwyd yn ystod gweithdy Cerdd Amdani. Llwyddodd y disgyblion i greu argraff fawr ar y beirniaid a braf nodi fod yr ysgol wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer y gwobrau eleni. Bu pedair o ddisgyblion blwyddyn 6 a staff yn y Seremoni Wobrwyo ar fore Dydd Gwener, 4ydd o Orffennaf yn Amgueddfa y Glannau, Abertawe. Yr ydym yn hapus iawn i ddweud ein bod wedi ennill £600 i'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr i bawb.

**Iechyd a Lles**

Trefnwyd wythnos Iolo Iach eleni ar Fehefin 16eg i'r 20fed. Fel rhan o'r wythnos cafwyd amrywiaeth o weithgareddau i'r disgyblion ac i'r staff. Cymerodd y disgyblion ran mewn gweithgareddau ymgyrch PANTS gan NSPCC. Mae'r gwersi'n cyflwyno cysyniadau ymreolaeth gorfforol, cydsynio, a chyrchu help. Cafwyd noson lles haeddiannol i'r staff yn ystod yr wythnos. Diolch o galon i Emma Thomas am wirfoddoli a chynnig noson 'pamper tropic' i'r staff yn rhad ac am ddim.

**Mabolgampau**

Cynhaliwyd Mabolgampau blynyddol yr ysgol Ddydd Iau, Mehefin 19eg. Tîm Teifi daeth i'r brig eleni gyda Cillian blwyddyn 5 yn ennill y tarianau canlynol- Tarian ras hir, Tarian maes taflu, Tarian maes neidio, Tarian pencampwr. Evelyn blwyddyn Derbyn enillodd y medal pencampwr Rhos fach ar gyfer y merched a Noa o flwyddyn 2 gipiodd pencampwr bechgyn yn Nosbarth Rhos Fach. Yn nosbarth Cae Glas, Ruby enillodd pencampwr y merched a Cillian enillodd pencampwr y bechgyn. Trefnwyd Barbeciw blasus gan y Gymdeithas Rheini ac Athrawon fel ffordd o ddathlu a diolch i'r disgyblion a'r staff am eu holl waith caled yn Eisteddfod yr Urdd eleni.

**Ysgolion Eco**

Cafwyd tymor prysur a llwyddiannus y tymor yma wrth iddynt ymgymryd a nifer o wahanol weithgareddau. Llwyddodd y disgyblion i blannu amrywiaeth o ffrwythau a llysiau yn yr ardd.

Cafwyd cnwd da o dato eleni a braf oedd gweld pawb yn ysu i'w prynu yn ein mabolgampau eleni. Croesawyd Mrs Bethan Evans-Phillips i'r ysgol yn ddiweddar ar gyfer ymweliad dilysu ar gyfer y wobr Baner Werdd Platinwm. Braf yw cyhoeddi fod yr ysgol wedi llwyddo i ennill ei nawfed baner ysgolion Eco. Fel parhad i waith Ysgolion Eco cynhaliwyd wythnos Eco yn ystod Mehefin 23ain i'r 27ain lle cafodd y disgyblion amrywiaeth eang o weithgareddau tu fewn y dosbarth a thu allan ar agweddau amgylcheddol. Fel rhan o'n thema lawr ar lan y môr, gwnaeth y disgyblion edrych ar effaith sbwriel yn y môr a sut mae'n effeithio bywyd gwyllt.

Trefnwyd sesiwn casglu sbwriel o gwmpas y pentref gan y disgyblion. Casglwyd 4.49kg o sbwriel yn ystod ein sesiwn ac roedd y disgyblion wedi synnu gweld cymaint o sbwriel bwydydd cyflym ar hyd y ffyrdd. Croesawyd Ynni Da i'r ysgol i wneud sesiwn beicio trydan i'r dis-

gyblion ar y Dydd Iau. Cafwyd llawer o hwyl a llosgwyd cryn dipyn o egni y disgyblion wrth iddynt bweru'r disgo. Yna cynhaliwyd siop dillad ysgol ail law ar ôl ysgol i rieni ar y dydd Iau ac ar y dydd Gwener fel modd o ailgylchu dillad ysgol. I orffen yr wythnos, cynhaliwyd siop teganau ail law i'r disgyblion lle gwerthwyd nwyddau rhoddedig gan deuluoedd a ffrindiau'r ysgol.

Penderfynwyd y byddai holl arian o'r wythnos yn mynd tuag at noddi anifail gyda WWF Cymru. Mae WWF Cymru yn gwneud gwaith pwysig iawn ar draws y byd wrth iddynt weithio i ddiogelu anifeiliaid bregus sydd o dan fygythiad oherwydd newid hinsawdd.

**Llysgenhadon Chwaraeon**
Cafodd y Llysgenhadon Chwaraeon, Cari-Haf, Lilly, Marged a Sara, wahoddiad i barc Penbre am ddiwrnod o hwyl wedi'i drefnu gan Actif Sir Gâr. Diwrnod i ddathlu gwaith caled a llwyddiant y Llysgenhadon. Da iawn ferched.

**Ocean Lab**
Ar ôl blwyddyn prysur, aeth pawb am ddiwrnod o hwyl lawr i'r Ocean Lab, Wdig.

**Gala nofio**



Tywi ddaeth i'r brig eleni.
Pwyntiau uchaf yn y gala- Cillian Brooks Pwyntiau uchaf – Bechgyn – Cillian Brooks
Merched - Cari-Haf Cynnydd gorau – Bechgyn -Seamus Merched -Elen Llongyfarchiadau i bawb.

**Blwyddyn 6**



Pob lwc i ddisgyblion blwyddyn 6 ar eu pennod nesaf yn yr ysgol uwchradd.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Twrnamaint Criced 50/50 yr Urdd ym Mronwydd**
Ar ddydd Gwener yr 20fed o Fehefin cystadlodd tîm blwyddyn 4 yn nhwrnamaint criced 50/50 yr Urdd yng nghlwb Criced Bronwydd. Chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda a chafodd pawb hwyl yn cystadlu. Da iawn chi!



Tîm Bl 4yn y Twrnamaint Criced

**Marciau Newydd ar iard yr ysgol**
Roedd yna gyffro mawr yn yr Ysgol pan ddaeth cwmni Sovereign i wneud marciau newydd ar iard yr ysgol. Mae wedi bod yn hyfryd cael y cyfle i chwarae arnyn nhw yn ystod yr hanner tymor a edrychwn ymlaen i'w defnyddio yn fwy yn ystod y flwyddyn academaidd newydd. Diolch i'r Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau Bro Brynach am eu cefnogaeth ariannol tuag at hwn.

**Mabolgampau**
Hyfryd oedd gallu cynnal ein mabolgampau ar y 1af o Orffennaf. Cafwyd diwrnod hwyliog gyda chystadlu brwd. Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am ennill Victor a Victrix Ludorum yn y Mabolgampau;
Dysgu Sylfaen: Llew Murray a Ruby Rodenhurst
Cyfnod Allweddol 2: Jared Anthony, Jac Owen a Lois Murray
Llongyfarchiadau hefyd i Lilly, Freddie, Lois a Jac am ddod yn gyntaf yn y ras hir.



Enillwyr ras hir yn y Mabolgampau

Diolch i'r holl rieni a ffrindiau'r Ysgol a ddaeth i gefnogi. Yn dilyn y mabolgampau cynhaliodd Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau'r ysgol weithgareddau hwylus gan gynnwys raffl, barbeciw a ras hwyaid. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu a helpu ar y diwrnod mewn unrhyw ffordd.

Ymwelwyr



Cawsom ein ymweliad olaf gan y Parch. Shirley Murphy y mis yma. Hoffwn ni estyn ein diolch iddi am ei chefnogaeth i'r ysgol. Dymuniadau gorau iddi yn ei gofalaeth newydd yn Iwerddon a diolch am bopeth.

*Disgybl hŷn yr ysgol yn cyflwyno carden a rhodd i Shirley Murphy.*

**Ymweliadau a Diwrnodau Pontio**
Yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf trefnwyd amryw o ddiwrnodau pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn Nyffryn Tâf, Ysgol Bro Preseli a Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin. Mwynhaodd y plant ymgymryd mewn amryw o weithgareddau hwylus a chael y cyfle i gyfarfod ag athrawon a ffrindiau newydd.

**Ffarwelio**
Pob hwyl i 10 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ni eleni, a diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad dros y blynyddoedd. Dymunwn bob hwyl iddynt yn eu hysgolion Uwchradd ym mis Medi.

Rydym yn ffarwelio â dau o lanhawyr yr Ysgol, Daisy a Sharon. Hoffem ddiolch i'r ddwy am eu gwaith caled a'r gofal maent wedi'i ddangos wrth helpu i gadw ein hysgol yn lân ac yn groesawgar. Dymunwn y gorau iddynt yn y dyfodol!

Ar ddiwedd y tymor hwn rydym hefyd yn ffarwelio ag un o'n hathrawon sef Miss Jessica Morris. Rydym yn diolch iddi am ei hymroddiad, ei gwaith caled a'r effaith gadarnhaol y mae wedi'i gael ar ein disgyblion yn ystod ei hamser gyda ni. Er y byddwn yn colli ei gweld bob dydd, edrychwn ymlaen i allu parhau i weithio gyda hi o fewn y ffederasiwn yn Ysgol Beca.

**Diolch**
Hoffai bawb o Fro Brynach estyn ein diolch i Wyn a Meirwen am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd fel gosodwyr y papur. Dymunwn y gorau iddynt yn y dyfodol.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Chwaraeon**
Cafwyd llawer o hwyl wrth i ni gynnal Mabolgampau ar gyfer y tri Cham Cynnydd. Diolch i'r holl rieni a ddaeth i gefnogi eu plant. Llys Griffith ddaeth i'r brig eleni!

Bu tîm y bechgyn hŷn yn cystadlu yn nhwrnament Criced Cwm Taf gan ddod yn gyntaf. Aethant ymlaen i rownd y Sir gan ennill dwy gêm allan o bedair. Da iawn fechgyn! Bu'r merched hŷn hefyd yn cystadlu yng nghystadleuaeth Criced Cwm Tâf gan ddod yn fuddugol. Dim lwc yn y rownd Sirol i'r merched, ond ymdrech wych gan bawb. Bu disgyblion o Flwyddyn 4 Branwen, Rhiannon ac Olwen yn mwynhau cymryd rhan yng Ngŵyl Criced yr Urdd.



Cwblhaodd y llysgenhadon Chwaraeon eu blwyddyn brysur o weithgareddau drwy fynychu diwrnod o hwyl ar gyfer llysgenhadon y Sir ym Mharc Pembre. Diolch i Annie, Jenson, Hunter a Lily am eu gwaith drwy'r flwyddyn yn cefnogi sgiliau chwaraeon yr ysgol.

Bu'r Ysgol gyfan yn dymuno pob lwc i dim pêl droed merched Cymru wrth iddynt gystadlu yng nghystadleuaeth pêl droed yr Ewros am y tro cyntaf. Fe ymunodd y plant gyda channoedd o ysgolion eraill dros Gymru mewn 'Jambori' a drefnwyd gan yr Urdd.

**Ymwelwyr**
Croesawyd Kristen sef nyrs yr ysgol atom i siarad â disgyblion Blwyddyn 6 am dyfu i fyny.

Croesawyd rhieni a phlant newydd y dosbarth Meithrin atom ar gyfer prynhawn agored.

Daeth criw o'r Bad Achub i gynnal gweithdai gyda'r dosbarthiadau am ddiogelwch ar lan y mor yn ystod yr Hâf.



Cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 Branwen, Rhiannon ac Olwen brynhawn wrth eu bodd yn mwynhau gweithgareddau awyr agored dan ofal Clybiau Plant Cymru.

Hyfryd oedd croesawu Lowri Sion atom i gynnal sesiwn Stori a Symud gyda Dosbarthiadau Dewi a Beca. Cafodd pawb lawer o hwyl yn dilyn anturiaethau'r Ditectif Dafi.

**Ymweliadau**

Bu nifer o'r dosbarthiadau yn mwynhau tripiau amrywiol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Aeth dosbarthiadau Olwen, Hywel, Gwenllian ac Arthur ar daith i'r Gerddi Botaneg i ddysgu am gynefinoedd. Aeth dosbarthiadau Branwen a Rhiannon hefyd i'r Gerddi Botaneg i gymryd rhan mewn gweithdy creu moddion gan ddefnyddio perlysiau. Bu dosbarthiadau Pwyll, Myrddin, Rhiannon, Branwen a Culhwch yn crwydro cymuned Sanclêr yn chwilota am dystiolaeth o'r twrch trwyth, fel rhan o'u thema 'Twrch'. Aeth dosbarth Dewi am brynhawn o hwyl i Ganolfan Hamdden Sanclêr i chwarae ar y teganau meddal.



Aeth criw o offerynnwyr hŷn yr Ysgol i berfformio i'r plant bach ym Meithrinfa Dechrau Disglair. Edrychwn ymlaen i groesawu rhai ohonynt atom ni ym mis Medi.

Ymunodd criw o ddisgyblion Blwyddyn 6 gyda'r cerflunydd Mr. Dave Peterson yng Nghanolfan y Gat yn San-Cler i fwynhau arddangosfa gelf gan blant o'r Iwcrain. Danfonwyd y gwaith fel ffordd o ddiolch i'r gymuned am lyfrau a ddanfonwyd atynt ar ddechrau'r rhyfel.

**Proms Sir Gâr**

Bu nifer o'n disgyblion hŷn yn perfformio yng nghyngerdd Proms Sir Gâr yn Theatr y Ffwrnes yn Llanelli. Bu Cadi, Jessica, Cora, Lily, Fern ac Isabella yn canu gyda'r côr. Bu rhai o offerynnwyr yr Ysgol hefyd yn perfformio yn y cyngherddau pres, llinynnau a gitar. Bu Tomos East yn perfformio ar y trombôn, Lydia, Cora, Isabella, Jessica a Maya ar y gitar, a Melody, Evie a Lottie ar y ffidil. Da iawn i Tomos East a gafodd wobr 'chwaraewr y dydd' yn ystod y paratoadau.

**Pontio**

Trefnwyd diwrnodau pontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 5 + 6 yn Nyffryn Tâf a Bro Myrddin. Mwynhaodd y plant y cyfle i gyfarfod ag athrawon a ffrindiau newydd.

**Gŵyl Canol Dre**

Bu disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn perfformio yn 'Gŵyl Canol Dre' yng Nghaerfyrddin. Diolch i Menter Iaith Sir Gâr am drefnu'r ŵyl ac am roi cyfle i'r disgyblion gael bod yn rhan ohoni.

**Sioe Sanclêr**

Buodd llawer iawn o'n disgyblion yn cystadlu yn Sioe Amaethyddol CFfI Sanclêr eleni. Bu dosbarth Hywel yn brysur yn creu dau fwgan brain ar gyfer y gystadleuaeth, sef Guto Gwningen a Jac y Jwc. Braf yw cyhoeddi eu bod wedi dod yn ail a thrydydd. Da iawn hefyd i blant Dosbarth Non a fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth addurno mochyn, gan ennill gwobrau cyntaf, ail a thrydydd. Arbennig! Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant a enillodd wobrau yn y cystadlaethau cartref hefyd – o addurno llwyau pren i greu mwclis bwytadwy!

**Cymdeithas Rieni a Ffrindiau**

Trefnwyd taith gerdded noddedig gan y Gymdeithas Rieni a Ffrindiau ar y thema 'Gwledydd y Byd'. Mwynhaodd y plant wisgo i fyny mewn dillad amryliw i gynrychioli gwledydd dros y byd.

**Ffarwelio**

Pob hwyl i'r 43 o ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ni eleni. Diolch i bob un ohonynt am eu cyfraniad i Ysgol Griffith Jones dros y blynyddoedd.

## Cofio Waldo – 'Creu Cenedl Heddwch'



Yr heddychwraig a chyn-aelod o Senedd Ewrop yn enw Plaid Cymru, Jill Evans o'r Rhondda fydd yn traddodi Darlith Waldo eleni. Fe'i traddodir nos Wener, Medi 26ain ar gampws Coleg y Brifysgol Aberystwyth. Teitl y ddarlith fydd 'Creu Cenedl Heddwch'.

Bu llawer o drafod ynghylch p'un ai bardd neu heddychwr oedd Waldo Williams yn bennaf. Tebyg bod y dafol yn weddol gytbwys o'r ddwy ochr. Ond tebyg y teflir goleuni pellach ar hynny gan y darlithydd gwadd.

Yna ar Fedi'r 30ain sef diwrnod geni Waldo dadorchuddir cofeb iddo yn yr Archifdy yn Hwlffordd. Ar safle'r Archifdy y safai Tŷ'r Ysgol, Ysgol Prendergast, lle'r oedd ei dad yn brifathro a lle treuliodd Waldo saith mlynedd cyntaf ei fywyd cyn i'r teulu symud i Fynachlog-ddu. Roedd yn blentyn uniaith Saesneg yn Hwlffordd ond cofleidiodd y Gymraeg ar ôl cyrraedd y Preselau trwy chwarae gyda'i gyfeillion newydd megis Edgar Tycwta a Dai Glynsaithmaen. Dadorchuddir y plac gan ei neiaint.

Yn y cyfamser mae Cymdeithas Waldo wedi lansio cyfres o bodlediadau o sgyrsiau gyda phobl oedd naill ai'n adnabod Waldo ei hun neu yn ei adnabod trwy ei waith neu gyfuniad o'r ddau. Mae'r gyntaf sef sgwrs rhwng y prifardd a'r awdur, Alan Llwyd a Hefin Wyn i'w gweld naill ai ar wefan Cymdeithas Waldo neu ar youtube.

Mae Alan yn awdur cofiant swmpus yn ogystal â chyfrol ddwyieithog amdano fel heddychwr. Cyd-olygodd hefyd gyfrol sy'n cynnwys ei holl farddoniaeth ynghyd â nodiadau manwl am bob cerdd.

Mae sgyrsiau tebyg gydag eraill yn yr arfaeth.

LYNDON GEORGE



**ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL**

**MOT**

**•CEIR •BEICIAU MODUR •FANIAU •4x4**

**Offer Diagnostig Diweddaraf**



**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

•RHANNAU SPAR •GWASANAETH •TEIARS •BATRIS•WELDIO •TRACIO PEDAIR OLWYN •TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 • Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP



Jones Login
Teithiau o Safon

**Swydd Wag (Prentis Gosodwr, Technegydd a Gyrrwr)**

Mae cyfle wedi codi yma yn Jones Login i Brentis Gosodwr Cerbydau, Technegydd a Gyrrwr i gynorthwyo gyda'r gwaith cynnal a chadw, atgyweirio a pharatoi ein fflyd o 15 o fysiau mini a choetsys am MOT.

Yn ogystal â'r dyletswyddau gweithdy a restrir uchod, bydd angen dyletswyddau gyrru achlysurol. Bydd angen prawf DBS uwch ar yr ymgeisydd llwyddiannus cyn cael ei gyflogi a chymryd hyfforddiant a phrawf gyrru bws pan fydd yn 18 oed. Byddwch yn gweithio gyda'n dau dechnegydd cerbydau modur profiadol ac yn mynychu coleg lleol ar gwrs 1 diwrnod yr wythnos am 3 neu 4 blynedd.

Mae gwybodaeth a phrofiad mecanyddol cerbydau blaenorol yn ddefnyddiol, ond nid yn hanfodol, dim ond parodrwydd a brwdfrydedd i ddysgu a chymhwyso'r wybodaeth.

Mae hwn yn gyfle gwych i berson brwdfrydig lleol i ennill wrth ddysgu cymhwyster galwedigaethol gwerthfawr.

Dewch i ymuno â busnes teuluol bach sydd wedi bod yn masnachu ers 60 mlynedd!!

Anfonwch eich datganiadau personol a'ch CV i:

Endaf Jones
Jones Login
Login, Hendy-Gwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0UX
E-bost: endaf@joneslogin.co.uk



Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login**
**Hendygwyn**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA34 0UX**
**Ffôn: 01437 563277**
**www.joneslogin.co.uk**





| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | **Sidmouth** | 5* |
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | **Swydd Ceint, Gardd Lloegr** | 5* |
| Sul 7 | **Chatsworth a Bakewell** (Gyda Sefydliad y Merched Hendygwyn) | 3 |
| Llun 15 | **Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin** | 5* |
| Llun 23 | **Iwerddon - Swydd Mayo** | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |
| Sad 25 | *Sioe Warhorse, CMC* | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 15 | *Sioe Gerdd Top Hat, Caerdydd* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Nadolig Palas Blenheim a Windsor** | 2 |
| **Rhagfyr 2025** | | |
| Sad 6 | Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon | 1 |
| Sad 13 | Nadolig yng Nghanolfan Arddio Yr Hen Rheilffordd ger Aberhonddu | 1 |
| Sad 13 | *Sioe Gerdd - Mary Poppins, CMC a Bae Caerdydd* | 1 |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Ionawr 2026** | | |
| Sad 10 | **ABBA Voyage a Windsor** | 2 |
| Sad 17 | **Mamma Mia - Y Parti, 02 Llundain** | 2 |
| **Chwefror 2026** | | |
| Gwe 6 | **Torquay - Cynheswr Gaeaf** | 4* |
| Sad 7 | *Sioe Gerdd - Here & Now (Cerddoriaeth Steps)* | 1 |
| Sad 14 | **Sioe Gerdd - Paddington, Llundain a Windsor** | 2 |
| Llun 16 | **Gwesty Warner - Holme Lacy** | 5* |
| Sad 18 | *Sioe Gerdd Tina Turner, Caerdydd* | 1 |
| **Mawrth 2026** | | |
| Gwe 20 | **'A Fab 4 Days in Liverpool'** | 4* |
| Sad 21 | *Sioe Gerdd - Barnum, Caerdydd* | 1 |
| **Ebrill 2026** | | |
| Llun 13 | **'Avon's Calling'** | 5* |
| Sul 19 | **Te Prynhawn Brenhinol yn Windsor** | 2 |
| **Mai 2026** | | |
| Llun 11 | **Canolbarth Cudd Iwerddon** | 6* |
| Sad 16 | *Sioe Gerdd - Stori Buddy Holly, Caerdydd* | 1 |
| **Mehefin 2026** | | |
| Llun 1 | **Fforiwr Arfordir y De** | 5* |
| Sad 6 | *Sioe Gerdd - Miss Saigon, Caerdydd* | 1 |

**2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns i ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.**

***Gwasanaeth Drws i ddrws ar y teithiau yma**

**Gallwch archebu ar lein, dros y ffôn, neu mewn person yn ein swyddfa**

CYFRES Wenfro

# Pwll Pysgod

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae'r wylan wen yn cadw llygad barcud ar y pwll dŵr sydd ger y creigiau ar draeth Aberawen gan ei fod yn llawn o bysgod blasus!

**Fedrwch chi ddarganfod faint o bysgod llwyd sy'n cuddio ymysg y gwymon gwyrdd?**



**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/09/25**

**Alys James o Ben-y-bont ar Ogwr yw enillydd Cystadleuaeth Eisteddfota!**

Ateb: 1. Côr, 2.Deuawd, 3. Unawd Alaw Werin, 4. Unawd Cerdd Dant, 5. Parti Deusain.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓗ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2025

**Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.**



# Bysiau Cwm Taf

## *Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 1af Awst | Taith i Stiwdio yr enwog CORONATION STREET | £380 | 4 Diwrnod |
| Sad 2ail Awst | AWSTRIA a'i Olygfeydd Godidog yn LERMOS a INNSBRUK | £1,200 | 8 Diwrnod |
| Sul 10fed Awst | NEWCASTLE a NORTHUMBRIA | £645 | 6 Diwrnod |
| Gwe 15fed Awst | BRYSTE a CHAERFADDON / BRISTOL and BATH | £450 | 4 Diwrnod |
| Llun 18fed Awst | ?????????? TAITH DDIRGEL yr HAF ?????????? | £650 | 5 Diwrnod |
| Sul 24ain Awst | RHYFEDDODAU WATERFORD yn IWERDDON | £635 | 5 Diwrnod |
| Iau 28ain Awst | NOTTINGHAM ac ARDAL ROBIN HOOD | £420 | 4 Diwrnod |
| Llun 1af Medi | GOLEUANNAU BLACKPOOL ILLUMINATIONS | £405 | 5 Diwrnod |
| Gwe 5ed Medi | Crwydro BUXTON a BAKEWELL (Ystafelloedd Sengl yn unig) | £445 | 4 Diwrnod |
| Sul 7fed Medi | ARDAL y LLYNNOEDD. Taith mewn Cwch Ager ac ar Dren Ager | £645 | 5 Diwrnod |
| Sul 14eg Medi | LLANDUDNO a Thaith ar Rheilffordd Ucheldir Cymru | £650 | 5 Diwrnod |
| Llun 15fed Medi | Taith ar Dren Ager yn NORFOLK ac ymweliad a Sandringham | £595 | 5 Diwrnod |
| Sul 21ain Medi | LLYN GARDA a'r DOLOMITES yn yr EIDAL | £1,350 | 10 Diwrnod |
| Gwe 26ain Medi | TORQUAY a CHASTELL POWDERHAM | £430 | 4 Diwrnod |
| Gwe 3ydd Hyd | ???????? TAITH DDIRGEL YR HYDREF ???????? | £455 | 4 Diwrnod |
| Llun 6ed Hyd | GOLEUANNAU BLACKPOOL ILLUMINATIONS | £405 | 5 Diwrnod |
| Iau 9fed Hyd | Chwedlau a Thirweddau YNYS MANAW | £665 | 6 Diwrnod |
| Gwe 10fed Hyd | Port Isaac, Padstow, Mevagissey a LOOE ar Afordir CERNYW | £370 | 4 Diwrnod |
| Gwe 17eg Hyd | Elvis Presley, Tina Turner a Lionel Richie yn BABBACOMBE | £315 | 4 Diwrnod |
| Sul 19eg Hyd | Rhydychen / Oxford, Palas Blenheim a ardal Midsomer Murders | £540 | 5 Diwrnod |
| Gwe 24ain Hyd | WESTON SUPER MARE | £385 | 4 Diwrnod |
| Sul 26ain Hyd | TAITH DDIRGEL i IWERDDON | £685 | 6 Diwrnod |
| Llun 27ain Hydref | LUDLOW a IRONBRIDGE | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 3ydd Tach | BELGRAVE SANDS " Torquay & Tinsel" | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 7fed Tach | DERBY ac ymweld a Marchnad Nadolig CHATSWORTH HOUSE | £335 | 3 Diwrnod |
| Iau 13eg Tach | "HOLLY and MISTLETOE yn LLANDUDNO | £565 | 5 Diwrnod |
| Gwe 21ain Tach | Marchnadoedd Nadolig MAENCEINION a CAER | £305 | 3 Diwrnod |
| Mon 24ain Tach | Hud y NADOLIG yn MORECAMBE | £520 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Tach | TREN y GOLEUADAU NADOLIG yn TORQUAY | ££80 | 4 Diwrnod |
| Gwe 5ed Rhag | PENWYTHNOS NADOLIGAIDD YN LLUNDAIN | £325 | 3 Diwrnod |
| Gwe 5ed Rhag | TREN y GOLEUADAU NADOLIG yn PAIGNTON | £380 | 4 Diwrnod |
| Gwe 12fed Rhag | CAROLAU NADOLIG, NEUADD FRENHINOL ALBERT, LLUNDAIN | £420 | 3 Diwrnod |
| Gwe 12fed Rhag | NADOLIG CYNNAR yn BABBACOMBE | £320 | 4 Diwrnod |
| Llun 15fed Rhag | Marchnadoedd NADOLIG BRUGES, GHENT a LILLE | £695 | 5 Diwrnod |
| Maw 30ain Rhag | Dathlwch y FLWYDDYN NEWYDD YN PAIGNTON | £585 | 4 Diwrnod |

**Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau**

**Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni**

**01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk**

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL Y GARREG LAS 2026

Pwyllgor Apêl Llanwinio, Cwmbach, Blaenwaun a Cwmfelin Mynach



Cynhaliwyd noson Gemau a Gwin yn neuadd Llanwinio, Nos Wener, Gorffennaf 11eg. Cafwyd noson llawn hwyl yn chwarae gemau bwrdd o bob math gyda phawb yn cymdeithasu. Yn ogystal, cafwyd twrnamant 'Tip-it' a dioich i'r enillwyr am roi'r wobr at elw'r noson. Diolchodd Geraint y Cadeirydd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd gan sicrhau llwyddiant y noson.

**DIGWYDDAD NESAF**
Rasus ceffylau, nos Wener, Medi 26ain am 7.30 yn neuadd Llanwinio.
Croes cynnes i bawb.

## Clwb Rygbi San Clêr

Rydym yn edrych ymlaen i'r tymor newydd pan fydd ein tîm cyntaf yn chwarae unwaith eto yn Adran 1 y Gorllewin – gwelir rhestr y gemau am y mis cyntaf isod. Bydd y gemau i gyd yn rai heriol ond rydym yn edrych ymlaen yn arbennig tuag at ein gemau darbi lleol yn erbyn Clwb Rygbi Talacharn.

**Medi**
6ed - Llanbed adref
13eg - Talacharn i ffwrdd
27ain - Waunarlwydd adref

Bydd ein ail dîm yn cystadlu yng nghyngrair Llanelli a'r ardal tymor hwn a bydd ein tim ieuenctid yn chwarae yng nghyngrair Ieuenctid Sir Gaerfyrddin.
Bydd timau mini a iau o oedran dan 7 i dan 16 gyda ni hefyd. Pob lwc i'r holl dimau.

Dymunwn yn dda i ddau gyn chwaraewr fydd yn chwarae yng nghyngrair Super Rugby tymor nesaf sef Jac Howells gyda Quins Caerfyrddin a Jack Davies gyda Pontypridd. Pob lwc wrth bawb yn y Seintiau.

Pob hwyl i'r tim hyfforddi sef Mike Jones, Dafydd Evans, Gareth Jones a Jack Price ar gyfer y tymor newydd.

Mae aelodau'r pwyllgor wedi bod yn gweithio'n ddiwyd ar gynnal a chadw y cae rygbi, adnewyddu'r ffensys a ceisio sicrhau noddwyr newydd yn ogystal a rhai presennol. Os oes diddordeb gyda chi i noddi'r clwb, cysylltwch gyda Lisa ar 07973 622260 neu Donna ar 07506 767368 am gyfleoedd i gefnogi'r clwb fel aelod, noddwr gemau / bwrdd noddi ochor y cae / hysbysebu yn y rhaglen.

*Gwyndaf Williams*

## Clwb Rygbi Hendygwyn

**Dynion**
Mae'r dynion eisoes wedi dechrau ymarfer ar gyfer y tymor newydd, maent yn cyfarfod bob nos Lun a nos Iau ar Barc Llwyn Tŷ Gwyn ac estynnir croeso cynnes i chwaraewyr newydd, yn ogystal a'r chwaraewyr presennol.
Mae dwy gêm gyfeillgar wedi eu trefnu – adref yn erbyn Athletic Castell Nedd ar Awst 16eg ac adref yn erbyn Met Caerdydd ar Awst 23ain.

**Menywod**
Bydd y menywod yn dechrau ymarfer ar nos Iau, Gorffennaf 31ain ar Barc Llwyn Tŷ Gwyn am 6.30 o'r gloch ac eto estynnir croeso cynnes i chwaraewyr newydd yn ogystal a'r chwaraewyr presennol.

**Gŵyl Rygbi Cerdded**
Cynhelir Gŵyl Rygbi Cerdded ar Barc Llwyn Tŷ Gwyn ar ddydd Sul, Awst 17eg am 11 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i bawb. *Suzanne Davies*

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartedig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 11B, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444
e-bost: sales@crymychbuildingsupplies.co.uk



# CHWARAEON



## Clwb Pel-droed Llanboidy

Tra bod tymor 2024-2025 wedi dod i ben, mae'r paratoi wedi dechrau ar gyfer tymor 2025-2026 gan obeithio am dymor llwyddiannus i'r Clwb.

**Timoedd 1af a'r 2il**
Unwaith eto bydd y tîm cyntaf yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion gyda'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion. Mae'r ymarferion wedi dechrau, bob nos Fawrth a nos Iau am 6.30yh ar Gae Dandre, Llanboidy. Croeso cynnes i chwaraewyr hen a newydd. Bydd nifer o gemau cyfeillgar dros y mis nesaf, cyn i'r tymor ddechrau yn swyddogol ym mis Awst.

**Noson Gwobrwyo**
Ar Nos Sadwrn, Mehefin 21ain, cynhaliwyd noson wobrwyo'r Clwb yng Nghlwb Cymdeithasol Llanboidy. Dyma enillwyr y gwobrau, cafodd eu noddi gan gwmni Arwain.

Wastad yn bresennol: Jac Haley, Frazer Wyatt a Ifan Jones

Chwaraewr mwyaf addawol: Luca Jones

Chwaraewr ifanc y flwyddyn: Rhys Pearce

Mwyaf o goliau (1af): Gethin Scourfield

Mwyaf o goliau (2il): Lewis Thompson

Chwaraewr y Flwyddyn (2il): Chris Bowen

Chwaraewr y Chwaraewyr (2il): Rhodri Lewis

Chwaraewr y flwyddyn (1af): Frazer Wyatt

Chwaraewr y Chwaraewyr (1af): Ifan Jones

Person Clwb y Flwyddyn: Pete Davies

**Adran Iau**
Dydd Sadwrn, Gorffennaf 19eg, cynhaliwyd sesiwn ymarfer agored i chwaraewyr presennol a newydd yr adran Iau. Mae'r timau dan 6, 8, 10, 12, 14 a 16 yn edrych ymlaen at y tymor sydd i ddod.

Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. Rydym hefyd yn edrych am noddwyr, felly os oes diddordeb gyda chi; unwaith eto cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol.

*Rhodri Lewis*

---

## Cystadlaethau Tynnu Rhaff Cymru 2025

Teithiodd bois Clwb Tynnu Rhaff Llanboidy i Lanidloes eleni eto ar gyfer cystadlu ym Mhencampwriaethau Tynnu Rhaff Cymru. Cynhaliwyd y bencampwriaeth ddydd Sadwrn 5ed o Orffennaf ar Gae Hafren, Llanidloes fel rhan o Ŵyl Rygbi Saith Bob Ochor Heart of Wales.

Cafodd Clwb Llanboidy ddiwrnod hynod o lwyddiannus eleni. Enillwyd pedair gwobr aur (yn y pwysau 720 cilogram, 680, 640 a 600) a dwy arian (yn y 560 cilogram a hefyd yn y gystadleuaeth i'r tîm cymysg oedd yn cynnwys aelodau o Glwb Tynnu Rhaff Merched Hermon). Yn ogystal, enillodd Llanboidy y tlws arbennig er cof am Cyril Phillips, tlws sy'n cael ei ddyfarnu i'r clwb uchaf ei bwyntiau yng nghystadlaethau'r dynion. Cyflwynwyd y tlws i Kevin Phillips, yr hyfforddwr, gan Gerallt Phillips, un o feibion Cyril. Roedd Kevin wedi ei blesio'n fawr gan berfformiadau'r garfan gyfan.

Dymuna'r clwb ddiolch o galon i bawb sy'n cefnogi drwy gynnig nawdd iddynt yn flynyddol. Eleni, derbyniwyd crysau tynnu newydd wedi eu noddi gan gwmni Riverlea. Cyflwynwyd y crysau i'r bechgyn gan Paul Blount. Diolch i Riverlea am eu cefnogaeth.

Mae'r clwb  o hyd yn awyddus i groesawu aelodau newydd felly os oes diddordeb gyda chi i ymuno gyda'r bois, yna cysylltwch â Kevin ar 07812 408633.



